tafod elái

CHWEFROR 1988 Pris 20c RHIF 24

SWYDDI NEU SIOPAU?

Beth fydd tynged safle'r hen bwll glo yn Nantgarw? Mae'n safle 90 erw mewn sefyllfa arbennig gyda chysylltiadau trafnidiaeth da iawn â'r cymoedd ac â thrafforddd yr M4.

Mae Awdurdod Datblygu Cymru am adeiladu ffatrioedd ac unedau diwydiannol i greu tua 1000 o swyddi. Perchnogion rhan fwyaf y safle yw Coleg yr Iesu, Rhydychen, ac maent wedi rhoi cais cynllunio am gymysgedd o swyddfeydd, ffatrioedd a siopau a chais arall am Ganolfan Siopau enfawr fydd yn fwy na Chanolfan Siopau Dewi Sant, Caerdydd, gyda chyfleusterau hamdden.

Yr unig ddatblygiad siopau tebyg i'r hyn a grybwyllir yn Nantgarw yw'r Metro-Centre yn Gateshead, Newcastle. Fe fydd rhaid denu rhai o'r prif siopau megis Marks a Spencer a Burtons i wneud y ganolfan yn ddeniadol.

Posibilrwydd arall a grybwyllir yw adeiladu swyddfeydd newydd sbon i'r Cyngor Sir ar rhan o'r safle. Cyngor Sir Morgannwg Ganol yw'r unig sir ym Mhrydain gyda'i Prif Swyddfeydd tu allan i ffiniau'r sir.

Paratowyd Cynllun Ymgynghorol gan y Cyngor Sir i geisio cadw'r safle ar gyfer diwydiant. Bydd cryn drafod ar ddyfodol y safle pwysig hwn dros y misoedd nesaf.

Sycamorwydden ar y Garth.

COLLI CYFEILLION

Collwyd cyfeillion annwyl o'n bro yn ddiweddar, ac yng ngholofnau'r rhifyn hwn telir teyrnged i Nansi Millward, Arthur Miles ac Eirwyn Evans, y tri wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd pentref a chapel Gwaelod y Garth.

Diolchwn am eu cyfraniad gwerthfawr i fywyd y fro.

DWYWAITH MEWN WYTHNOS

Gorlifodd yr Afon Tâf dwy waith dros y flwyddyn newydd ac ar y ddwy achlysur bu llifogydd yng Nghlwb y Bont a'r siopau cyfagos ym Mhontypridd. Mae adeilad y clwb ar lan yr afon ac mewn perygl bob tro mae'r afon yn uchel. Bu llifogydd chwe gwaith yn y clwb dros y dwy flynedd a hanner diwethaf.

Er yr holl waith a chostau ychwanegol mae pwyllgor Clwb y Bont yn parhau yn ffyddiog am ddyfodol yr unig glwb Cymraeg yn Nhaf Elai.

ARWYDD O NEWID?

Fe gofiwch mewn rhifyn blaenorol o'r **Tafod**, adroddiad yn trafod agwedd, neu'n wir ddiffyg agwedd Cyngor Sir Morgannwg Ganol, ar arwyddion ffyrdd dwyieithog ar ffyrdd y sir. Mae'n galonogol felly rhoi gerbron y darllenwyr fod na beth symud wedi bod ar y mater ers hynny.

Na pheidied neb a chynhyrfu yn ormodol, toes yna ddim byd syfrdanol wedi digwydd, ond yn ara deg mae dal iar ynte.

Yn ystod mis Rhagfyr, cyfarfu Is-bwyllgor o'r Pwyllgor Prif-ffyrdd a Thrafnidiaeth ac ar yr agenda yr oedd dau fater o ddiddordeb yn y cyswllt yma. Yn gyntaf, trafodaeth ar awyddion ffyrdd dwyieithog, ac yn ail trafodaeth ar arwyddion i ddynodi terfynau'r Sir. Fe gyflwynwyd adroddiad yr Is-Bwyllgor i'r Pwyllgor Prif-ffyrdd a Thrafnidiaeth ar ddechrau Ionawr eleni.

Parhâd ar dudalen 2

ARWYDD O NEWID?

PARHAD O DUDALEN 1

Dywed yr adroddiad i bwyllgor Materion Cyffredinol y Cyngor Sir drafod argymhellion a baratowyd gan y Clerc, y Peiriannydd a'r Trysorydd ar y cyd yn Ebrill 1979 yn cynnig y dylai:-

1) pob arwydd ffordd angehrheidiol ar gynllun ffordd newydd fod yn ddwyieithog.
2) pob arwydd ffordd angen ei adnewyddu ar ffordd heb arwyddion dwyieithog fod yn unieithog.
3) arwyddion dwyieithog gael eu gosod pe byddai'r rhan helaethaf o'r arwyddion angen eu hadnewyddu.

Bryd hynny ni wnaed penderfyniad, a pharhawyd â chodi arwyddion ffyrdd Saesneg yn unig fel ag o'r blaen.

Fe fu peth trafodaeth pellach ar y mater ym misoedd Mai ac Awst 1980, a phenderfynwyd bryd hynny y byddid yn parhau'r polisi cyfredol, hyd nes y byddai cyllid yn caniatau codi arwyddion ffyrdd dwy eithog gyda'r Saesneg uwchben y Gymraeg.

Fe fu peth ymestyn ar y polisi hwn, ac eisioes mae'r pwyllgor wedi cydsynio i godi arwyddion ffyrdd dwyieithog ar rannau o ffyrdd y Sir sy'n cysylltu'n union gyrchol a'r Draffordd M4 neu'r prif-ffyrdd dan ofal y Swyddfa Gymreig. Fe welwch y polisi yma ar waith yng nghyffiniau'r M4 yn Y PÎl, Sarn, Pencoed, Meisgyn, ac hefyd yng nghyffiniau'r A470 rhwng Abercynon â Phentrebach.

Ond y rhan nesaf yma sydd wrth wraidd y drafodaeth ddiweddaraf yma yn sicr.

Oherwydd i'r Swyddfa Gymreig is-raddio'r A48, sy'n ymestyn o ffiniau'r sir hyd Y PÎl, yn Ebrill 1987, a'r gost cynnal a chadw wedi hynny yn syrthio ar ysgwyddau'r Cyngor Sir, mae angen adnewyddu'r arwyddion ffyrdd i gyd ar ei hyd drwyddi draw. Dyna weld cyfle felly, yn enwedig gan fod cyllid ar gael gan y Swyddfa Gymreig i roi'r ffordd mewn cyflwr derbynnioll cyn rhoi'r babi yng nghol y Cyngor, i godi arwyddion ffyrdd dwyieithog ar hyd gloddia a pherthi cyrion y Fro.

Y Cyngor Sir ei hun sy'n gyfrifol, gyda bendith yr Ysgrifennydd dros Gymru, am godi statws y B4277 rhwng Tonyrefail ac Aberdâr a'i galw'n A4233.



Polisi'r Sir?

Oherwydd y newidiadau yma, eto mae angen adnewyddu'r arwyddion ffyrdd, a'r cynnig ydi y dylid ystyried arwyddion dwyieithog ar gyfer y darn yma o'r ffordd. Dywed yr adroddiad mai enwau Cymraeg yw'r mwyafrif ohonynt beth bynnag, ac felly nifer fechan o arwyddion dwyieithog sydd eu hangen.

Penderfynu mynd a'r mater gerbron y Pwyllgor Materion Cyffredinol a wnaed yng nghyfarfod lonawr o'r Pwyllgor Prif-ffyrdd a Thrafnidiaeth.

A'i ennill cyfle ynteu colli cyfel unwaith yn rhagor a wnaiff cynghorwyr Morgannwg Ganol tybed?

Beth am ichi bwyso ar eich cynghorydd sirol i gefnogi'r symudiad bychan yma i gyfeiriad dwyieithrwydd ar ein ffyrdd ym Morgannwg Ganol. Ewch allan i'r prif-ffyrdd ac i'r caeau yn eich ardal a gwnewch restr o'r enwau Saesneg ar yr arwyddion ffyrdd sydd o'ch cwmpas. Fe synnech cyn lleied o arwyddion ffyrdd sydd eu hangen, i gael Morgannwg Ganol dwyieithog!

Cyhoeddir Tafod Elai gan y Bwrdd Golygyddol gyda chefnogaeth ariannol Cymdeithas Celfyddydau De-Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig.

Erthyglau a straeon ar gyfer y rhifyn nesaf i gyrraedd erbyn 12 Chwefror 1988.

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040

NOSON YN YSBRYD GWYL Y NADOLIG

Nos Sadwrn, Rhagfyr 19, yn Rhyd-y-Gerdinen, yng nghartref Mr a Mrs William Rees cynhaliwyd noson gymdeithasol hyfryd i godi arian tuag at y ddwy uned newydd i blant ag anghenion arbennig yn Ysgol Gynradd Coed-yr-Esgob, Llantrisant. Cawsom ganu carolau i gyfeiliant amryw offerynnau, eitemau unigol cerddorol a digon o fwyd traddodiadol Cymreig i goroni'r noson - wel, i fodloni archwaeth y mwyaf newynog! Gwnaed elw sylweddol o'r ddwy raffl ac o'r tocynnau â werthwyd. Dymuna'r Prifathro a'r staff ddiolch i bawb a gyfrannodd mor barod at lwyddiant y noson, ac yn enwedig i Mr a Mrs William Rees am agor drws eu cartref led y pen, rhywbeth y maent bob amser yn ei wneud i hybu pob achos teilwng. Dywedodd y diweddar Ryan rywdro yn yr Albert Hall, - "Diolch yn fawr i Albert am gael benthyg y Neuadd!" Dangoswn ninnau'r un gwerthfawrogiad i deulu hael a charedig Rhyd-y-Gerdinen.

Croeso

Croeso i Sioned Mai sydd wedi dod i ddysgu i Ysgol Gymraeg Garth Olwg. Un o Ben Llyn yw Sioned yn wreiddiol. Gobeithio y bydd hi'n hapus iawn yn Nhaf-Elai ac y gall hi ddenu ei dyweddi Rhys yma'r flwyddyn nesaf.

AR WERTH: Beic BMX (Raleigh Mini-Burner) yn addas i fachgen 5-8 oed. Lliw- glas.
Bargen - £30.00. Pentyrch 891353.

'YN Y DECHREUAD ----'

Bydd Ysgol Gyfun Llanhari ym mysg y cyntaf i ddathlu pedwarcanmlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Penderfynodd adrannau Drama a Cherddoriaeth yr ysgol wneud hynny trwy lwyfannu Opera Roc wreiddiol wedi ei selio ar hanes cyfieithu'r Beibl gan yr Esgob William Morgan ym 1588. Mr Euros Rhys Evans yw cyfansoddwr y gerddoriaeth ac ysgrifennwyd y geiriau gan Miss Mair Gruffydd a'r ddau yma fydd hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu'r opera.

Yn ôl y rhan fwyaf o'n gwerslyfrau Hanes trechu'r Armada ac nid cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg rydd bwysigrwydd i'r flwyddyn 1588. Nid yw'r Opera Roc yn anwybyddu hynny a chawn gyfle i deimlo cyffro'r Armada, gweld urddas llys y Frenhines Elisabeth a mwynhau hwyl y ffeiriau. Ond prif thema'r Opera yw penderfyniad William Morgan i gyfieithu'r Beibl i'w famiaith - a hynny yn wyneb anawsterau lu.

Llwyfannir 'Yn y dechreuad ----' yn yr ysgol ar nosweithiau lau a Gwener 25, 26 Chwefror ac hefyd yn Theatr y Sherman, Caerdydd ar Nos Sul 6 Mawrth. Disgwylir y bydd Cannwyll y Cymro, a gynheuir ar achlysur cyhoeddi'r cyfieithiad newydd o'r Beibl ar Fawrth y cyntaf, yn llewyrchu yn ystod y perfformiad yn y Sherman.

Sicrhewch eich tocynnau mewn da-bryd, trwy gysylltu a'r ysgol.

William Morgan
(Curon Evans)

Y Dysgeidion yn ymarfer

Ymarfer Golygfa'r Armada
gyda Miss Gruffydd

Y Frenhines Elisabeth
(Carys Swain)

Y Ddau Ffŵl
(Abigail Williams a Jayde Phillips)

LLYFR LLIWIO'R DATHLU

Drwy gyfrwng nifer o luniau i'w lliwio caiff plant Cymru gyfle da i ymgyfarwyddo â gwahanol agweddau o hanes y Beibl wrth ddathlu pedwar canmlwyddiant Beibl yr Esgob William Morgan.

Cyhoeddir y llyfr lliwio "Beibl i Bawb" -- gan Bwyllgor Cyhoeddusrwydd Gŵyl Gerdd Dant, Pwllheli a'r Cylch 1988 gyda chydsyniad Pwyllgor Dathlu Cyfieithu'r Beibl. Un o'r lluniau ynddo yw clawr Beibl newydd 1988.

Mae yn y llyfr ddwsin o ddarluniau i'w lliwio, a gallai pob un fod yn sylfaen i olrhain peth o hanes y Beibl. Mae ynddo, er enghraifft, lun o William Morgan ei hunan, ei gartref yn y Wybrnant, ei gofgolofn ef a'i gynorthwywyr yn Llanelwy; Thomas Charles o'r Bala a Mari Jones, myneich yn ysgrifennu, argraffydd yn argraffu, llun wyneb-ddalen Beibl 1588 ynghyd â nifer o faneri i gyfleu "Beibl i bawb o bobl y byd".

Yr arlunydd yw R. Delwyn Jones, Pwllheli, prifathro Ysgol Gynradd Edern, Llyn, a'r argraffwyr, Gwasg Gwynedd, Caernarfon. Am bunt mae'n anrheg delfrydol.

Os ydych am brynu copiau ewch i'ch siop lyfrau leol neu gysylltu ag Ysgol Cymerau, Pwllheli.

William Morgan gyda rhaeadr Llanrhaeadr ym Mochnant yn y cefndir.

Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth

BYWYD YN Y COLEG GER Y LLI

Rydw'i yma ar fy ail flwyddyn ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, bellach, ac wedi dod i arfer digon â bywyd myfyriwr.

Mae hi'n hawdd dod i adnabod pobl, yn ogystal â'r dref ei hun, fan hyn, gan ei bod hi mor fach, sy'n creu cymuned eitha' agos rhwng y myfyrwyr â'i gilydd. Rydych chi'n weddol debygol o gyfarfod o leia' dau berson rydych chi'n eu hadnabod, wrth fynd am dro i'r dref.

Mae'r un peth yn wir am gampws y coleg, wrth gwrs. Er fod yr Hen goleg gyda rhai adrannau, megis Cymraeg, lawr yn y dref a'r Coleg Newydd, efo gweddill yr adrannau, i fyny ar allt Penglais, yn adeilad Hugh Owen, dydy hyn ddim yn gwneud y coleg yn rhy wasgaredig, fel y byddai mewn dinas fawr. Mae'n ddigon hawdd cysylltu, trwy wneud un pwnc i lawr yn yr hen goleg a phwnc arall i fyny yn y coleg newydd (fel y gwnes i llynedd), heb unrhyw drafferth. Mae'n fantais cael y siopau i lawr wrth ymyl yr hen goleg, ond mae'n fantais cael cyfleusterau canolfan y Celfyddydau a'r Undeb i fyny wrth y coleg newydd, hefyd.

Pantycelyn ydi'r brif Neuadd Breswyl Gymraeg, ac mae Neuadd hunan-gynhaliol John Williams i lawr wrth ymyl y môr. Er fod 'na rai Saeson yn byw ym Mhantycelyn, Cymry ydi'r mwyafrif. Trwy gyfrwng y Neuadd mae Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (U.M.C.A.) yn gweithredu fel arfer a mudiad 'Y Geltaidd". Nhw sydd yn cynnal y mwyafrif o'r dawnsfeydd a'r amryw weithgareddau Cymreig eraill, i fyfyrwyr y dref.

Rydw i'n ddigon ffodus i gael fy holl ddarlithoedd i fyny yn y coleg newydd, sy'n golygu mai dim ond rhyw 10 munud o gerdded (neu llai os ydw i'n teimlo'n ffit) sydd gen i o Neuadd Pantycelyn.

Felly, er mai dim ond braslun ydi hwn o fywyd myfyriwr Cymraeg yn Aberystwyth, gobeithio ei fod o'n ddigon o fraslun i roi syniad o faint y gall person gael allan o'r coleg yma'n academaidd a chymdeithasol. Os nad ydy o'n ddigon, 'dwi'n siwr y byddai'r coleg yn barod i anfon ei brospectws diweddara' i chi.

Elen Miles

CYMDEITHAS Y CYN FYFYRWYR

Hen Wynebau. Hen Atgofion. Undeb Llawen

Mae'r Gymdeithas uchod yn tynnu at ei chanmlwyddiant. Daeth i fodolaeth ym 1892 pan ddaeth pump o gyn-fyfyrwyr y Coleg, a oedd bellach mewn colegau yn Rhydychen, ynghyd yn rheolaidd i sgwrsio am faterion y dydd a chyfnewid syniadau gan sylweddoli fod Aber wedi rhoi rhywbeth amhrisiadwy iddynt.

Fydd nifer o aelodau'r Gymdeithas yn ymgasglu yn Aberystwyth mewn Aduniad Blynyddol dros benwythnos y Pasg. Caiff llawer mwy, na all fod yn Aber yr adeg hon, eu cadw mewn cysylltiad wrth dderbyn, ar ddechre pob blwyddyn, gyhoeddiad blynyddol y Gymdeithas. Hefyd, bydd nifer yn ymuno a changhennau'r Gymdeithas ym Mangor, Abertawe, Birmingham, Caerdydd, Llundain ac Aberystwyth.

Mae paratoadau eisioes ar waith i ddathlu canmlwyddiant y Gymdeithas yn 1992. Fel un o'r gweithgareddau rydym yn ymdrechu i gael pawb â fu yn y Coleg, ac sydd heb ymuno â'r Gymdeithas hyd yn hyn, i wneud hynny ar fyrder. Gellir cael ffurflen ymaelodi oddi wrth y cyfeiriad isod.

Trefnir Tê'r Gymdeithas ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol. Eleni bydd 'Noson Aber' yng Ngholeg Caerllion ar Nos lau Eisteddfod Casnewydd. Cewch sgwrs a chroeso ym Mhabell y Coleg ar Faes yr Eisteddfod.

Dilys Wynne Lloyd
182 Ffordd Caerdydd
Llandaf
Caerdydd CF5 2AD
0222 562154.

ABER - BLWYDDYN O FYWYD COLEG

Yn aml iawn, mynd i'r coleg yw profiad cyntaf pobl ifanc o fyw oddi cartref. Mae'n gyfnod o aeddfedu a datblygu, gwneud camgymeriadau a dysgu oddi wrthynt, dysgu byw gyda phobl eraill, cymryd safbwynt am y tro cyntaf ar faterion gwleidyddol a rhywiol, sefydlu ffordd o fyw iddyn nhw eu hunain - hyn i gyd ar ben gwneud eu marc yn academaidd, gan fod myfyrwyr yn ymwybodol iawn y dyddiau hyn fod cael sydd dda - neu unrhyw swydd - yn aml, yn dibynnu ar gael gradd dda.

Nos Lun, Chwefror 1, bydd S4C yn darlledu'r gyntaf o wyth rhaglen ddogfen yn edrych yn fanwl ar fywyd myfyrwyr yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Bu camerau BBC Cymru yn dilyn hynt a helynt y myfyrwyr dros gyfnod o ddeuddeg mis. Gwelwn y 'glasfyfyrwyr' yn ymsefydlu yn y bywyd academaidd - ac anacademaidd - i ffwrdd o'u cartrefi am y tro cyntaf. Mae yma hanes yr undebau myfyrwyr, a golwg ar eu harweinwyr. Mae golwg ar fywyd Pantycelyn - neuadd breswyl Gymraeg, cymysg o ddynion a menywod, a'r gymuned glos sydd ynddi - cymdeithas rhy glos meddai rhai.

Dilynwn hynt rhai o'r dysgwyr sy'n tyrru i Aberystwyth i wella'u Cymraeg. A chael hanes lleiafrif arall yn y gymuned gymysg hon - y bobl hoyw.

Beth yw uchelgais y myfyrwyr hyn - bod yn llywydd yr Undeb Gymraeg - U.M.C.A., ennill yn yr Eisteddfod Ryng-golegol, neu gael gradd ddosbarth cyntaf ar ddiwedd eu cyfnod yn y Coleg?

Dyma sleisien o fywyd pob dydd pobl ifanc yr wythdegau. Agwedd y myfyrwyr sy'n cael y sylw blaenaf yn y rhaglenni - er bod golwg hefyd ar fywyd rhai o academwyr Aber.

Nid oes cyflwynydd na sylwebydd - lleisiau'r myfyrwyr eu hunain yn unig sydd i'w clywed yn y gyfres - cofiwch wylio.

RHYDFELEN 25 - Y FFORDD YMLAEN

Penderfynais osgoi atgofion a chanolbwyntio ar un neu ddau o bethau difrif, a hynny, gobeithio, heb ddifetha'r parti. Mi hoffwn wneud sylw neu ddau ar ryw dair agwedd ganolog, yn fy nhyb i, ar addysg Gymraeg. (Gwelaf fod y gair 'dwyieithog' yn cilio o'r diwedd). Mae'n bosib na fyddaf yn gwbl ddifeirniadaeth chwaith, ond pa werth gwyngalch hyd yn oed ar ddiwrnod penblwydd?

Rhaid i un frawddeg annheilwng wneud y tro i ddweud penblwydd hapus. A dyna hi! Un frawddeg arall yn unig i ddweud i mi gael dros saith mlynedd (rhif arwyddocaol) hapus yn brifathro ysgol go arbennig, ac ennill llawer mwy na rhoi wrth rannu dyheadau rhieni oedd yn fwy cefnogol i'r Gymraeg o'r hanner na'r rhelyw o Gymry Cymraeg naturiol a adwaen. Wedi i mi gefnu ar gadernid Gwynedd y cwrddais i gyntaf â Chymry a wnai'r iaith yn hanfod er na siaradent hi. Nid sôn yr wyf o gwbl am Gymry dosbarth canol breintiedig Caerdydd - er i'r dosbarth hwnnw, oherwydd 'u breintiau a'u manteision, roi'r arweiniad cychwynnol - ond rhieni Pont Sion Norton, Y Bargod a Chwm Rhondda, ac ati, a dròi fy ngorchwylion yn ddileit. Y rhain, ac nid neb arall, na phrifathrawon nac athrawon - er bod cnewyllyn bach digon ymroddedig ymhlith y rheini- nac awdurdod addysg - fu Morgannwg Ganol erioed yn flaengar yn hybu'r Gymraeg - y rhain a barodd y gellir heddiw ddathlu chwarter canrif o dwf cyson yn y Gymraeg yn y cylch hwn, twf o leiaf mewn ystadegau ac ymhlith plant hyd un ar bymtheg oed. Y rhieni hyn sy'n gyfrifol fod ysgolion yn cael 'u sefydlu yn y cymoedd 'u hunain erbyn hyn, a allai ddatblygu i fod yn ysgolion bro yn yr ystyr gyflawn, ysgolion fyddai hefyd yn medru dylanwadu ar gymdogaeth, peth newydd yn hanes ysgolion Cymraeg y de-ddwyrain, os nad yn hanes unrhyw ysgol gyfun.

Heb y cysylltiad a'r cyd-ymwneud cymdeithasol clos hwnnw, anghyflawn fydd addysg unrhyw ysgol. Ni wn i a yw Ysgol Cwm Rhymni yn llwyddo yn y cyfeiriad hwnnw, na chwaith pa gynlluniau sydd yna i wneud peth tebyg yn ysgol newydd Cwm Rhondda, ond mae yna gyfle na ddychwel. Nid gwaith rhieni, ond dyletswydd yr ysgolion yw hyn.

YMGYRCH GYMREIGIO

Mae'n rhan o'u dyletswydd sy'n cyrraedd at y cwricwlwm 'i hun. Mae'n hen bryd bellach i'r ysgolion Cymraeg seilio'u cyrsiau ar rywbeth ar wahan i efelychu'r cyrsiau cyfrwng Saesneg yn slafaidd heb ystyriaeth leol na chenedlaethol wahanol. Mae'n amserol bellach. Er mai mesur a'i fryd ar greu rhaniadau a throi'r cloc yn ôl yw mesur Kenneth Baker, mae yna gyfle (os nad yw wedi'i golli) i greu cyfeiriad newydd. Gwastraff amser yw trafod nodweddion elfennau fel y cwricwlwm craidd, er enghraifft: mae hwnnw wedi bodoli yn yr holl ysgolion ers blynyddoedd. Nid gwastraff yw trafod ar fyrder briodoldeb addasu meysydd llafur i ofynion gwlad a bro, fel y gellir gwneud mwy na rhoi arwisg Gymraeg 'i hiaith ar gysyniad dieithr i draddodiad a diwylliant cyflawn Cymru.

Nid cyfeirio rwyf chwaith at iaith cyfrwng. Gallaf ddeall y dyddiau cynnar ansicr yn arfer gofal wrth ystyried pa bynciau drwy'r Gymraeg, a rhesymau gwleidyddol ac ymarferol weithiau dros ddod i gasgliad arbennig. Credaf i fy hun mai camgymeriad oedd dweud 'y gwyddorau a Mathemateg drwy'r Saesneg,' a gorsymleiddio fel yna. Ac fe dyfodd y rhaniad afresymol yma'n bolisi mewn ambell i fan, er na fu erioed yn bolisi ym Morgannwg. Pan ddeuthum i i Rydfelen roedd hi'n bosibl i ddisgybl o'r bedwaredd flwyddyn ymlaen dderbyn y rhan fwyaf o ddigon o'i gwrs drwy'r Saesneg. Nid oedd hynny wrth gwrs yn rhoi cyfle teg i'r iaith oedd wannaf. Hyd yn oed wedi'r newid graddol i ddysgu mwy o bynciau drwy'r Gymraeg, roedd adran Saesneg gampus yn medru gofalu fod 'u safonau dipyn uwch nag ysgolion y dalgylch, a holl gefndir cymdeithasol y cylch yn gofalu wrth gwrs mai'r Saesneg fyddai'r iaith gryfaf.

Dylid edrych o ddifrif ar gynnwys y meysydd llafur (gan gynnwys Saesneg, yn arbennig Hanes, ond cynnwys y pynciau i gyd, neu'r holl "ddisgyblaethau" y dylwn 'i ddweud yn yr achosion cyflawn lle y diflannodd dysgu pwnc traddodiadol). Wedyn gellid cytuno ar athroniaeth, a chyhoeddi'n eglur y dylid newid agweddau sylfaenol y cwricwlwm i orau wasnaethu'r plentyn o Gymro/Gymraes. Grwp o arolygwyr ac athrawon fyddai orau i wneud hyn yn gyffredinol (gwell na threulio amser yn llunio adroddiadau merfaidd i gasglu llwch). Ond gyda'r grym newydd a gaiff ysgolion unigol o dan y mesur newydd am y rhesymau anghywir wrth gwrs - fe allai Rhydfelen arloesi eto.

Yr ymgyrch Gymreigio yw'r pwynt olaf sydd gennyf. Wedi'r cyfan, os goddefwch ystrydeb, os nad yw'r Gymraeg yn mynd i ffynnu yng ngenau cyn-ddisgyblion Rhydfelen, ofer fu ymdrechion y sylfaenwyr (oherwydd raison d'etre yr ysgolion yw cred mewn ffyniant iaith) ac ofer yw ymdrechion llafurwyr y presennol. Trist oedd gweld y dystiolaeth ddiweddar, yn cadarnhau'r hyn a wyddem debyg iawn, oedd yn dangos cyn lleied o gyn-ddisgyblion Rhydfelen sy'n defnyddio, neu'n cael cyfle i ddefnyddio'r iaith. Ac er gwyched yr ymdrechion, mae'n rhaid i'r ysgolion ddyblu'u hegnion a gweld llwyddiant yn y cyfeiriad hwn hefyd.

Yr ydym yn sôn am ymroddiad cymdeithasol ar lefel lawer uwch na mesur addysg neu gytundeb cyflog. Mae'n digwydd i raddau, a chan rai. Braf oedd gweld y sglein yn para yn y cynhyrchiad disglair diweddar gan Rydfelen yng ngŵyl ddrama'r papur bro hwn. Nid mai gweithgarwch cyhoeddus fel hyn yn unig wrth gwrs yw "ymroddiad cymdeithasol". Ofnaf na all ysgol nac ysgolion ddisgwyl wrth ddim y tu allan iddyn nhw'u hunain i wneud hyn. Yr ysgol yw'r unig bwynt ysgogi. Fe all pethau fel sianel deledu fod yn atodiadau bach digon defnyddiol, a byddai criw o rieni brwdfrydig yn gefn nerthol. Ond gofal y rhai sydd yn yr ysgolion yw unrhyw adferiad a ffyniant. Fy nymuniad didwyll i yw na fydd y gwaith yn rhy fawr.

Nid yw fy sylwadau'n llawn melyster, ystyriais mai gwell gennych fyddai cnoi tamaid onest o'r gwirionedd, tamaid a blas ychydig halltach iddo na chlamp o deisen siwgwr pinc. Ond rwy'n ymfalchio a dathlu cymaint a neb ar ddiwedd chwarter canrif o'r gweithgarwch pwysicaf un dros yr iaith. Dylid bloeddio'r hanes o ben y toeau.

Ifan Wyn Williams
Prifathro 1975-1982

TONYREFAIL A GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: D.J.Davies.

PARTI'R PLANT

Ar nos Sadwrn 12fed o Ragfyr 1987 cafodd plant Ysgol Sul Capel y Ton eu parti Nadolig, a digon i fwyta diolch i rieni ac aelodau'r Capel,a hefyd gemau gwych o bob math. Trefnwyd y byrddau gan Mrs Beryl Davies a Mrs Joan Davies ac roedd Mr Ken Davies hefyd wrth law i helpu. Diolchodd Kenneth i Abby Hanson, Leighton Harries a Susan John am drefnu'r gemau a difyrru y plant.

Ddydd Sul, 20fed o Ragfyr bu plant yr Ysgol Sul yn cynnal eu noson garolau ag eitemau amserol. Gwnaeth Mr Ken Davies eto ddiolch i Abby, Leighton a Susan a'r plant am eu gwaith a'u dyfal barhad a'u ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Bu nifer o blant yr Ysgol Sul yn canu carolau yn y farchnad wythnosol ddydd Mawrth cyn y Nadolig gan gasglu dros £40 i blant dan anfantais.

ANRHYDEDD Y GUIDES

Un o aelodau ffyddlon yr Ysgol Sul yw Joanne Williams sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gymraeg Tonyrefail ac yn awr yn Ysgol Gyfun Llanhari. Llongyfarchiadau iddi am gael ei hanrhydeddu am eu gwaith gyda'r Guides. Gwelsom ei llun yn y papur wythnosol yn diweddar. Da iawn Joanne.

CENHEDLAETH ARALL

Llongyfarchiadau i deulu Rhiwgarn, Trebanog. Ganwyd mab i Catherine, wyres Mr a Mrs Ivor Davies felly yn gwneud pedair cenhedlaeth yn y teulu. Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Cadwgan , Crofft yr Haidd, Pencoedcae - tadcu a mamgu arall Catherine.

GWAITH GWIRFODDOL

Llongyfarchiadau i Mrs Humphries am ei hanrhydeddu yn haeddiannol â'r B.E.M. am ei gwaith gwirfoddol yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg a'i gwaith gyda'r mudiad casglu at ymchwil cancr. Mae hi'n 83 oed ac yn aelod ffyddlon yn Ainon, Tonyrefail. Bydd cylch Tonyrefail yn falch iawn ohoni.

FFEIRIAU NADOLIG

Cyn y Nadolig fe gynhaliwyd ffeiriau gan Ysgolion Meithrin y Gilfach Goch a Thomastown a buont yn llwyddiannus iawn.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG TONYREFAIL

Bu disgyblion Ysgol Gymraeg Tonyrefail wrthi yn ddiweddar yn ceisio codi arian i gynorthwyo plant sy'n llai ffodus na nhw.

Ar "Ddydd Plant Mewn Angen" fe drefnodd y plant hŷn arwerthiant ym mysg disgyblion yr ysgol. Gofynnwyd i bawb ddod â rhywbeth i'w roi yn yr arwerthiant ac yna ar y prynhawn Gwener aeth pawb i'r Ffreutur i chwilio am fargen. Y canlyniad oedd £158 tuag at apêl "Plant Mewn Angen".

Mae dros ddwy flynedd bellach ers i'r Ysgol "fabwysiadu" merch fach o'r Sudan o'r enw Waheeba. Bob mis bydd y plant yn rhoi eu ceiniogau sbâr mewn blwch yn y dosbarth ac ar ddiwedd y mis fe gesglir yr arian a'i anfon at y Cynllun Mabwysiadu. Eleni penderfynwyd canu carolau yn y pentref amser cinio Dydd Mawrth ola'r tymor, er mwyn anfon yr arian at Waheeba. Daeth y glaw trwm ac amharu ar y trefniadau ond fe aeth y plant i lawr i ffatri Del Guerra a daethon nhw oddi yno a dros £40, diolch i haelioni'r gweithwyr.

Bu'r ysgol hefyd wrthi yn atgyfodi hen arferiad y Fari Lwyd. Aeth Safon 1 o gwmpas y pentre ar ôl ysgol ar y nos Fawrth, ond yn anffodus fe rwystrodd y glaw trwm y trefniadau. Fodd bynnag, wedi'r Gwasanaeth Carolau yng Nghapel y Ton ar y Nos Fercher aeth rhai o'r plant a'r athrawon a'r rhieni â'r Fari Lwyd lan i Gilfach Goch i gyfarfod Nadolig Gild y Merched, lle cawsant groeso mawr gan Miss Katie Pritchard. Roedd hi wrth ei bodd yn croesawu'r Fari Lwyd i'r Gilfach a soniodd am daith y Fari Lwyd ers 'slawer dydd. Cyn gadael bu'r plant wrthi yn diddori'r gynulleidfa â'u carolau.

Nos Fercher, Rhagfyr 16ed cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau yng Nghapel y Ton. Roedd y capel dan ei sang ac fe fwynhaodd pawb y noson yn fawr iawn. Mrs Mary Manner oedd yn chwarae'r piano. Roedd athrawon eraill yno yn helpu a llywyddwyd y noson gan y brif-athrawes Miss Betsi Griffiths.

PRIODAS AUR

Bu Mr a Mrs Emlyn Llewelyn yn dathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Llongyfarachiadau iddynt. Mae Mr Llewelyn yn ddiacon yn Ainon a Mrs Llewelyn yn chwarae'r offeryn - y ddau yn weithgar iawn i'r achos yn Ainon.

YR EFAIL ISAF

SWYDDI NEWYDD

Dymunwn yn dda i Mrs Liz West, Nant y Felin ar ei phenodiad yn Bennaeth Adran Gwyddor Tŷ yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Roedd Liz yn aelod o staff Ysgol Gyfun Llanhari tan y Nadolig.

Ein dymuniadau gorau hefyd i Gary Samuel yn ei swydd newydd gyda Bragdy'r Goron ym Mhontyclun.

JUICE

Pa gysylltiad feddyliech chi sydd rhwng Yr Efail Isaf ac Efrog Newydd? Yr ateb syml yw'r rhaglen "Juice" sydd ar deledu BBC Cymru ar Nos Fercher. Y ddau gyflwynydd newydd yw Michael Roberts ac Yvette Walters, y naill o'r Efail Isaf a'r llall o Efrog Newydd.

Mae Michael, sydd gyda llaw yn Gymro Cymraeg, i'w glywed yn aml ar Fore Sadwrn ar y Rhaglen Bambŵ fel aelod o'r grŵp Calimero. Dymunwn yn dda i Michael yn ei fenter newydd.

DYWEDDIAD

Llongyfarchiadau ar eu dyweddiad i Marc Thomas, 19 Heol Iscoed a Sara Shickle o Faesteg. Mae Marc yn gweithio yn Neuadd y Sir, Caerdydd, a Sara yn derbyn hyfforddiant i fod yn fferyllydd.

GWELLHAD

Braf yw deall fod Anti Vi yn gwella ar ôl torri asgwrn yn ei phigwrn cyn y Nadolig. Dymunwn adferiad iechyd llwyr iddi gan obeithio ei gweld yn ôl yn y Capel cyn hir.

Y GROESFAEN

Dymuniadau da

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Elena Rae, merch Martha ac Eddie Rae, Y Parc, Y Groesfaen ar ei dyweddiad yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau hefyd i Miss Eilonwy Jenkins, Y Groesfaen, a Mr T. J. Rhys Jones, Y Creigiau ar eu dyweddiad.

rhai o aelodau Ainon mewn gwaeledd ers tipyn. Dymunir iddynt adferiad buan iawn.

FFYNNON TÂF A GWAELOD

Gohebydd Lleol: E.June Huws

MARWOLAETH

Gyda thristwch mawr y sgwennaf am farwolaeth Miss Nansi Millward, 4 Garth Villas, Gwaelod y Garth ar Rhagfyr y 15fed, fis yn union ar ôl ei phenblwydd yn 83 oed. Roedd Nansi yn frodor o Waelod y Garth ac yr oedd yn Gymraes naturiol. Roedd ei rhieni yn hannu o'r pentref ac yr oedd yn bleser sgwrsio gyda Nansi am hanes y pentref a'r fro. Bu hi'n athrawes yn Ysgol Gynradd Eglwys Newydd tan ymddeol, dros ugain mlynedd yn ôl.

Roedd yn ddiacon yng Nghapel Bethlehem ac yn gadeirydd a thrysorydd Clwb yr Henoed. Mae ei marwolaeth yn golled ddirfawr i'r ardal ac yn achos hiraeth i'w theulu a'i ffrindiau hi.

MARWOLAETH ARTHUR MILES

Cymeriad arall o'r pentref a gollwyd dros y Nadolig oedd Arthur Miles a fu farw yng nghartref ei fab yn Nyfnaint. Bu yn byw yn y pentref ers rhyw ugain mlynedd a bu hwn yn amser creadigol iawn i'r arlunydd: ysbrydolwyd ef gan y coedwigoedd a'r nentydd o gwmpas y Garth. Yn y blynyddoedd diwethaf cafodd lawer o sylw a chydnabyddiaeth am ei waith, a bu yn brysur yn peintio tan y diwedd.

Yr oedd yn Farcsydd digyfaddawd ac yn un gweithredol at hynny, fel y gwelwyd yn ystod streic y glowyr, pan werthwyd nifer o'i luniau er budd Cronfa'r Glöwyr. Gedy weddw, Mrs Valerie Miles, sydd yn arlunydd ei hunan.

PRIFATHRO NEWYDD

Llongyfarchiadau calonnog i Mr Gerwyn Williams o Waelod y Garth ar ei benodiad yn brifathro Ysgol Gynradd Llantrisant. Bu Mr Williams yn ddirprwy cydwybodol a phoblogaidd iawn am wyth mlynedd yn Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth a bydd colled fawr ar ei ôl. Hoffem ddymuno pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

ATHRAWES BRO

Llongyfarchiadau i Mrs Marian Evans ar ei phenodiad yn athrawes bro. Bu'n gweithio yn Ysgol Gwaelod y Garth am ddwy flynedd, a bu'n aelod gwerthfawr o'r staff. Dymunwn y gorau iddi yn ei swydd newydd.

CARTREF NEWYDD YM MHENARTH

Dymunwn bob hapusrwydd i Dave a Joanne Richards a'r merched, Bethan a Rebecca, yn eu cartref newydd yn Plymouth Road, Penarth. Dave Richards yw Ysgrifennydd llawn amser y Blaid Gomiwnyddol yng Nghymru, a mae'n drueni colli teulu fel hyn a fu mor gefnogol i'r Gymraeg ag yn rhan mor bwysig o'r pentref. Joanne oedd cadeirydd Grŵp Heddwch y pentref a fu mor brysur yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae'n amlwg fod Penarth yn mynd i elwa ar ein colled ni.

CAROLAU

Casglwyd £67 i 'Latch', cronfa cancr plant Ysbyty Llandochau nos Lun cyn y Nadolig. Yr oedd yn noson wlyb ond wnaeth hyn ddim amharu ar fwynhad y carolwyr, a gobeithir ei wneud yn achlysur blynyddol o hyn ymlaen.

GRŴP HEDDWCH

Roedd y noson 'Chilean' a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref cyn y Nadolig yn llwyddiannus dros ben. Wnaeth bron i gant o bobl gefnogi'r achos a chodwyd can punt i gronfa iechyd Nicaragua.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Ann Dwynwen Davies (891344)

PARTI NADOLIG

Fe ymunodd y Cylch Mam a'i Phlentyn â'r Ysgol Feithrin am Barti Nadolig y Dydd Gwener cyn y Nadolig, ac wedi gwledda a chanu am dipyn fe alwodd Siôn Corn ar ei hynt i rannu anrhegion i'r plant i gyd, a wir roedd hi'n werth bod yno petae ond i weld y cyffro a'r rhyfeddod yn llygaid y plant bach.

ADFERIAD

Dymunwn adferiad buan i Dewi Hughes, 112 Maes y Sarn, a fu'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg ddechrau'r flwyddyn.

GENI

Llongyfarchiadau i Siân a Peter Murphy, Pant Glas, ar enedigaeth merch fach, Ceri, chwaer i Bethan, ddiwedd Tachwedd.

MERCHED Y WAWR

Bu cyfarfod cynta'r flwyddyn yn un diddorol a hwyliog yng nghwmni Robin Gwyndaf Jones o Amgueddfa Sain Ffagan, a fu'n hel atgofion wedi eu canoli ar enwogion lleol fel Mr T.W. Thomas, Greenhurst a'r diweddar Mrs Margaretta Thomas, Nantgarw.

Ruth Parry o BBC Cymru fydd yn annerch cyfarfod mis Chwefror, Nos Iau Chwefror 11eg, ar y testun "Merched Iach". Gofynnir i'r aelodau hynny sydd am i Nan Griffiths drafod hen ddodrefnyn o'u heiddo yng nghyfarfod mis Mawrth ei hysbysu o hynny yng nghyfarfod mis Chwefror.

EGLWYS SANT CATWG

Mae apêl ar y gweill gan Bwyllgor Adfer yr Eglwys i godi £50,000 ar gyfer atgyweirio'r adeilad, ac eisioes fe gylch-lythyrwyd trigolion y pentre yn gofyn am eu cefnogaeth. Fe ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1857 gan John Pritchard, a fu'n gyfrifol am adfer Eglwys Gadeiriol Llandâf, ac mae'n debyg i Sir John Betjeman, oedd yn athrylith ar bensaerniaeth eglwysi, ei disgrifio fel eglwys o gryn gymeriad yn ei lawlyfr ar Eglwysi plwyf Cymru a Lloegr, ac mae yn wir yn adeilad urddasol a hardd. Fel y gŵyr llawer ohonom, o brofiad yn ein capeli ein hunain, mae treuliau cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau hynafol yn uchel a pharhaus, a dymunwn yn dda i'r pwyllgor ar ddechrau eu hymgyrch.

Portread y Mis

GERAINT REES

"Yn 21 oed yr oeddwn yn teimlo fy mod wedi gwneud rhywbeth a'm bywyd - beth arall oedd ar ôl?" Dyna gyffes syfrdanol ond cwbl ddidwyll un o wŷr ieuanc mwayf nodedig yr ardal a gafodd brofiad ehangach o fywyd mewn blwyddyn nag a gaiff y rhan fwyaf ohonom mewn oes.

Un o blant yr ardal yw Geraint Rees er bod gwreiddiau ei deulu yng Ngorllewin Morgannwg. Fel pob plentyn y Mans gorfu iddo ddioddef edliw ei fan gamweddau "ac yntau yn fab i weinidog", ond ni chafodd erioed ei demtio i wrthryfela yn erbyn rheolau cadarn ond teg ei rieni Ann ac Eirian Rees, gweinidog Capel y Tabernacl, Efail Isaf.

Aeth o Ysgol Gartholwg yn ddisgybl bywiog a direidus i Ysgol Gyfun Llanhari lle cyfrannodd yn frwdfrydig i bob agwedd o fywyd yr ysgol a diau fod ei bersonoliaeth arbennig yn ogystal a'i allu academaidd wedi ei alluogi i ennill lle yng Ngholeg Mansfield, Rhydychen. Mae'n ymwybodol nad oedd "cyrchu Lloegr" yn dderbyniol gan bawb ond deil mai cymharol fyr yw cyfnod person mewn coleg ac mai prin yw cyfraniad myfyriwr i'r gymdeithas y tu allan i'r Brifysgol. Llawer pwysicach yn ei farn ef yw bod myfyrwyr Cymraeg yn dod yn ôl i Gymru i weithio. Mwynhaodd fywyd Rhydychen i'r eithaf - "mae dyddiau Brideshead wedi hen ddiflannu, roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr yn dod o ysgolion cyfun" - a chafodd flas arbennig ar wrando ar rai o wleidyddion a siaradwyr cyhoeddus mwya'r byd yn areithio yn yr Undeb. Cafodd Cymdeithas Dafydd ap Gwilyn, sef Cymdeithas Gymraeg Rhydychen, "flwyddyn fywiog" dan ei arweiniad ef!

Yn y coleg y cyfarfu â Caroline, merch o Swydd Gaint a oedd yn astudio ieithoedd modern. Cyn pen dim yr oedd Caroline wedi dysgu Cymraeg yn ddigon da i ddilyn cwrs o hyfforddiant fel athrawes drwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth. Mae Geraint a Caroline bellach yn byw yn Nhonteg ac yn sicr Cymraeg fydd iaith eu merch fach, Ffion.

Uchelgais Geraint oedd treulio cyfnod yn Affrica a phan wahoddwyd ef i fynd yn athro i Kenya derbyniodd y cynnig yn eiddgar er bod hynny yn golygu torri ar draws ei yrfa

academaidd. Cyrhaeddodd Kenya ar gyfnod o newyn difrifol ac o ganlyniad i garedigrwydd aelodau'r Tabernacl, Ysgol Gyfun Llanhari a llu o gyfeillion eraill gorfu iddo ysgwyddo'r baich annisgwyl o ddosbarthu gwerth dros mil o bunnau o fwyd dros ardal eang. Ei gyfrifoldeb ef oedd penderfynu pwy oedd i gael y flaenoriaeth a phwy fyddai'n gorfod newynu - i farwolaeth o bosibl. Fe'i dadrithiwyd yn llwyr o weld llywodraeth America yn elwa ar y sefyllfa ac yn cynnig cymorth i'r wlad ar yr amod ei bod yn cael sefydlu arfau niwclear yno. Tristwch hefyd oedd gweld y llwythau Affricanaidd yn colli eu gwerthoedd a'u diwylliant cynhenid - dysgodd plant mor ifanc a 13 oed arferion puteinio a chymryd cyffuriau o weld ffilmiau gwaethaf y byd gorllewinol. Roedd yn ofid gweld llwyth yn colli ei iaith o fewn cenhedlaeth yn yr ymdrech efelychu'r dyn gwyn.

Dychwelodd i Brydain ar ôl naw mis a'i iechyd wedi torri. Bu'n ddifrifol wael am wythnosau mewn ysbyty yn Llundain cyn iddo ddechrau adfer ei iechyd - mae ef yn argyhoeddedig bod gweddiau ei gyfeillion un noson yn Efail Isaf yn gyfrwng i'w wellhad o.

Wedi ennill ei radd yn Rhydychen dychwelodd i fod yn athro Astudiaethau Busnes yn Ysgol Gyfun Pencoed. Ni ddenwyd ef, fel cynifer o'i gyd-fyfyrwyr yn y maes i borfeydd bras y Gyfnewidfa Arian yn Llundain - nac i'r Weinidogaeth chwaith. Mae'n argyhoeddiedig mai gweinidogaeth ran amser sydd orau - er trymed y baich - cred na all gweinidog, sy'n dibynnu ar yr eglwys am ei gyflog, wasanaethu Duw a diacon; rhaid iddo fod yn rhydd o hualau'r gŵr sy'n rheoli'r pwrs.

Heddiw Teulu Twm, sef cymdeithas pobl ifainc capel y Tabernacl, sy'n mynd â llawer o'i amser ef a Caroline. Fe'i henwyd ar ôl Twm, cath Ann ac Eirian Rees a ymunai â'r dyrnaid o bobl ifainc a oedd yn cyfarfod bob nos Sul ar yr aelwyd yn Efail Isaf. Bellach mae dros hanner cant o aelodau a nifer dda yn ymgynnull yn Festri'r Tabernacl yn wythnosol. Nid ar chwarae bach y trefnir yr amrywiaeth enfawr o weithgareddau megis cwmni drama, band offerynnol, gwaith llaw, gwibdeithiau, twrnament golff a badminton - a chyfrannu erthyglau'n gyson i'r Tafod. Y nod yw darparu rhywbeth at ddant pawb, magu arweinwyr trwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r aelodau hynaf a rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

Wrth sgwrsio â Geraint ceir argraff o berson hawddgar, ond penderfynol, cyfrifol ond siriol, a aeddfedwyd gan ei brofiadau yn Affrica ond nas chwerwyd. Y mae yr un mor ymroddgar ei gyfraniad heddiw i ddiwylliant a Chymreictod ieuenctid ei fro ag yr oedd i fywyd ac addysg pobl ifainc Kenya.

Nan Griffiths

EIRWYN

Twr o anian tirionaf, - gŵr o hwyl,
Gwir ei air, a'r dwysaf;
Yn dawel i'w oed olaf,
Yn fwyn o'i Hydref i'w Haf.

Ei arlwy, teithio tirlan, - a'i fyfyr
a'i Fefus yn gyfran;
O'r byd a'i bedwar ban,
O'i huno, aeth i'w Hafan.

Un annwyl aeth yn lonawr, - ni allwn
ond ei golli'n ddirfawr;
Yn ei adfyd, poen drudfawr,
A'i wên a roes i ni wawr.

Emyr

ARTHUR MILES ARLUNIWR O FRI

Un o gymeriadau diddorol pentref Gwaelod y Garth yn ogystal ag un o arlunwyr poblogaidd Cymru oedd Arthur Miles a fu farw adeg y Nadolig.

Fe'i ganed yn Faversham, Swydd Caint, De Lloegr, ond daeth i fyw i Gymru pan yn ieuanc iawn. Bu'n gweithio mewn diwydiant ond datblygodd ei ddiddordeb mewn Celfyddyd. Er na chafodd hyfforddiant amser llawn heblaw gwersi ysgol nos yng Ngholeg Celf Caerdydd, cynhyrchodd lawer iawn o waith celfyddyd hyd at ddiwedd ei oes yn 82 oed.

Ymddiddorai yn fawr yng ngolygfeydd Cymru (er ei fod wedi arlunio golygfeydd yng Nghernyw a Norfolk yn gynharach) a chynhyrchodd waith a oedd yn adlewyrchu ei hoffder o natur. Dangosai sensitifrwydd ei lygaid a'i feddwl wrth ymateb i naws ac awyrgylch dawel coedwig leol, wrth sylwi ar afon wledig ar gaeau a pherthi gyda golau hudol yn disgyn ar hen wal gerrig ymysg rhedyn trwchus ac ambell i ffermdy yn y pellder.

Oherwydd diffyg traddodiad cryf mewn celfyddyd gweledol yng Nghymru cyd-sefydlodd Cymdeithas Dyfrliwiau Cymru rhyw ugain mlynedd yn ôl. Erbyn hyn roedd yn aelod o'r Royal Institute of Watercolour Painters ac wedi arddangos yn yr Academi Frenhinol yn ogystal â chael gwaith mewn amryw gasgliad preifat a chyhoeddus dros y byd.

Gweithiodd mewn amryw gyfrwng celfyddydol i wahanol sefydliadau gan gynnwys yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Theatr Newydd, ond mewn dyfrliw efallai y llwyddodd i ddefnyddio cyfrwng gyda sgil, thechneg a chyfansoddiad yn feistrolgar. Edmygai waith y meistri yn y cyfrwng yma, sef John S. Cotman a David Cox.

Yn ogystal â chynhyrchu darluniau o olygfeydd bu'n ymddiddori mewn darlunio gweithdai a phorthladdoedd ledled y wlad. Cyfrannodd yn hael i Ymddiriedolaeth Natur Morgannwg mewn amryw ffyrdd.

Roedd yn berson diffuant iawn a chredai'n gryf yn ei egwyddorion. Bu'n gefnogol i C.N.D. yn gyn-aelod o'r Blaid Gomiwnyddol a chefnogodd y glowyr yn ystod eu streic drwy werthu ei luniau a chyfrannu'r elw o filoedd o bunnoedd tuag at eu hachos.

Cynhelir arddangosfa o waith Arthur Miles yn Neuadd y Pentref, Gwaelod y Garth ar yr 28ain o Chwefror 1988 (10.30 - 6.00).

I.Rhys Daniel.

EIRWYN EVANS - ATHRO A CHYMWYNASGARWR

HAFAN = encil, cysgod, tawelwch, 'lle i enaid gael llonyd'. Creodd Mefus ac Eirwyn hafan hyfryd yn y Creigiau. Casglwyd trysorau i'r nyth, 'na fedd daear ddim o'u rhyw'. Pethau prin. Ar dro, troai'r sgwrs at y rhain. Ymhyfrydu yn eu hanes a'u crefft. Bob tro byddai Eirwyn yn cloi gyda'r ebychiad, "T.J., pethe ydyn nhw, pethe". Bydde fe wedi rhoi'r cwbl yn gyfnewid am iechyd gwell. Ni all neb. Rhodd yw iechyd. Rhai yn ei gael, a weithiau yn ddigon dibris ohono. Eraill hebddo, yn gorfod brwydro a mesur o afiechyd. Un o'r rheini oedd Eirwyn. Brwydrodd ag afiechyd erioed. Eto, ni chaech mohono yn llyfu'i glwyfau. Ni wyddai be' oedd hunan-dosturi. "Shwt ych chi!". "Dda iawn, mi fydda i'n iawn mewn rhai dyddiau. 'Nabod fy hun. Gwybod be i'w wneud". A dyna ddiwedd y sgwrs am ei gyflwr. Heb os, bu'n ddewr. Anhygoel o ddewr. Mynnodd lenwi ei fywyd â phrofiadau cyfoethog, teithio, cwmnïa, cyngherdda (cerddoriaeth gan amla'), Steddfota a chymryd ei le'n yr Orsedd fel un o'r Gorseddogion. Tri ugain mlynedd gafodd e', ond ei gwpan yn llifo drosodd. Nid hyd bywyd sy' bwysig ond ei ansawdd, ac yn hynny cadd Eirwyn fywyd gwych. Rhaid ei fod wedi ei orfodi ei hun i fynd, ardro. Pob esgus gydag e dros hafana yn ei gornel glyd. Ymladdwr oedd e. Tawel, siriol a gorchfygol. Rheina yw'r arwyr, onide?

Gwir fod Eirwyn wedi gadael cartre hyfryd, gadawodd bethau mwy arhosol na chartre a chynnwys. Cofir am gymeriad hynaws, caredig, cwrtais. Ni allai, ni fynnai ddolurio undim, ond diferai o'i fysedd gymwynasgarwch ac addfwynder. Roedd cael eich cyffwrdd â'r bysedd daionus hynny yn Wanwyn, yn ddfywiad, yn lechyd. 'Roedd cwmni Eirwyn yn adnewyddol iawn ei rin i enaid blin, lluddedig. Am yr angladd hynny y dywedwyd "He lit so many fires in cold rooms". Cynnau tân, ei gadw'n fyw, dyna genhadaeth Eirwyn. Nid ei ddiffodd yn siwr. Daeth y grasusau yma i gyd i'w gogoniant ym Methlehem, Gwaelod y Garth. Wrth ei fodd yno a phawb wrth eu bodd gydag e. Gwelir ei golli. Bu storom, dro yn ôl, pan ddiwreiddiwyd miloedd o goed prin yng ngherddi Kew, ac ni ellir, o leia am sbel fawr gael dim i lenwi eu lle. Trawodd y storm arnom ninnau, a chwympodd ein cysgod a'n nodded. Gwyddem fod y pry yn y pren, ond annisgwyl fu'r cwympo. Rydym yn noeth, yn ddiamddiffyn. Bydd dygymod â'r bwlch yn anodd i bawb, ond yn anos i Mefus, a ychwanegodd, drwy ei gofal, flynyddoedd at ei fywyd. Diolch, Mefus, am gael Eirwyn cyhyd. Gadawodd fwy na 'phethe', gadawodd gawod o atgofion am gymeriad hardd ac addfwyn.

Aeth i'w Hafan dawel, glyd, gan adael capel a bro mewn hiraeth mawr am enaid glew.

SARDIS

EGLWYS ANNIBYNNOL, PONTYPRIDD

Gweinidog: Parch John O Davies
"Derlwyn", 9 The Coppice, Tonteg
Ffon: 0443 205870

HANES YR ACHOS

Mewn ffermdy o'r enw Gwaunygerwyn y dechreuodd yr Annibynwyr gynnal cyfarfodydd gyntaf yn y cylch hwn tua dechrau'r ganrif ddiwethaf. Yn 1809 symudwyd y cyfarfodydd i oruwch ystafell "The White Horse" (Maltser's Arms nawr). Bu'r Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Methodistiad yn cydaddoli yno am dros flwyddyn. Yn ddiweddarach fe symudodd y cyfarfodydd eto i dŷ gyferbyn â Sardis.

'Roedd aelodau cyntaf Sardis yn dod o gylch ehangach nag y byddai rhywun yn disgwyl. Ar wahan i aelodau o Bontypridd roedd rhai aelodau yn y Groeswen, Llantrisant, a'r Cymmer. Yn 1834 yr adeiladwyd y capel cyntaf ar y safle presennol. Daeth yr Eglwysi at ei gilydd dan weinidogaeth y Parch Evans, a oedd yn weinidog hefyd yn y Cymmer. Bu yn gofalu am ddwy Eglwys hyd 1843.

Cafodd y Parch Griffith Jones, Mynwy alwad i wasanaethu'r Eglwys a bu ef yma hyd 1849.

Yn 1850 rhoddwyd galwad i Mr Henry Oliver B.A. Myfyriwr yn Athrofa Caerfyrddin. Urddwyd ef ar Gorffennaf 17, a 18 1851 ar ôl iddo orffen ei gwrs addysgol.

Bu y Parchg Henry Oliver yma hyd 1866. Yn niwedd 1880 dan weinidogaeth y Parchg W.J. Morris sefydlwyd cangen o Sardis yn Nhrehopcyn. Adeiladwyd ysgoldy yno i gynnal Ysgol Sul a Chyfarfodydd eraill.

Cynheliwyd Cyrddau Gweddi yno a Gobeithlu, ond er yr holl ymdrechion nid oedd pethau'n syrthio i'w lle yno. 'Roedd dyled sylweddol o 1,000 yn dalar am yr adeilad.

Daethpwyd i benderfyniad yn ystod gweinidogaeth y Parachg Dyfnallt Owen mae ofer oedd ceisio sefydlu Eglwys Gymraeg yno am fod y fan yn rhy agos i Sardis.

Yn 1870 gadawodd 35 o aelodau Sardis i ddechrau achos newydd yn Seion.

Yn 1881 gadawodd nifer o aelodau i ffurfio Eglwys Saesneg yn y dref.

Yn 1885, llwyr adnewyddwyd y capel drwyddo a chodwyd ystafell gyfleus. Mae'n anodd credu heddiw mai cost adnewyddu'r capel ac adeiladu'r festri yn 1885 oedd £1249 7s 10d. Ail-agorwyd y capel ym mis Medi 1885.

Yn y Llyfr "Ddeugain mlynedd yn ôl" dywed y Parchg O Lloyd Owen, cyn weinidog yr Eglwys Sardis bod yr iaith Gymraeg yn tynnu ei thraed i'w gwely i farw ym Mhontypridd a'r cyffiniau. Na nid ysgrifennu ar ddechrau y 60au, 70au a'r 80au yr oedd, na yn hytrach yn 1927. Mae'r Parch O Lloyd Owen yn mynd ymlaen i sôn am y frwydr anodd iawn yn wir, a'r peth nesaf i'r amhosibl oedd cynnal cyfarfodydd fel Gobeithlu a chyfarfodydd y Bobl Ifanc heb fynd i'r Saesneg.

Erbyn hyn mae'r sefyllfa wedi newid.

Bellach diolch i ysgolion fel Pont Sion Norton a Ysgol Evan James, mae mwy a mwy o blant yn cael eu magu i fod yn Gymry Cymraeg.

Sardis yw'r unig Eglwys bellach ym Mhontypridd sy'n cynnal ei gweithgareddau yn Gymraeg.

Yr ydym yn estyn croeso cynnes iawn i oedfaon y Sul. Fydd ein Gweinidog neu'r Swyddogion yn llawen iawn i gwrdd â chwi.

Trysorydd: Mr Idwal Adams
Gwynwawr, Danylan, Pontypridd.
Ffon: 0443 402496

Ysgrifennydd: Mr Berwyn M Lewis
44, Rosser Street, Maesycoed, Pontypridd.
Ffon: 0443 407776

NEGES

Mae Sardis yn Eglwys o tua hanner cant o aelodau sy'n cynnwys nifer da o bobol sydd wedi byw ym Mhontypridd gydol eu hoes. Rhieni ifainc yw'r gweddill sydd wedi dod i fyw i'r ardal o bob cwr o Gymru.

Mae gan yr Eglwys saith o ddiaconiaid sy'n gyfrifol am nifer o agweddau gweinyddol ac ysbrydol yr Eglwys, ac 'rydym yn ffodus iawn o'n gwasaneth a'n doniau. Mr Berwyn Lewis yw'r Ysgrifennydd, ac mae Mr Idwal Adams yn drysorydd ac yn organydd. Y gweddill yw Mrs E Davies, Mr Glyn Davies, Mrs Hilary Lewis, Mrs Mair Edwards a Mr Dafydd Evans.

Mae yna Ysgol Sul gref gyda ni gyda nifer da o blant sy'n llawn brwdfrydedd. Mae rhai o'r plant yma yn dod o gartrefi di-Gymraeg, ac maent i gyd yn mynychu ysgolion Cymraeg yr ardal.

Cynhelir dau wasanaeth bob Sul. Gwasanaeth teuluol ac Ysgol Sul i'r plant yn y bore am hanner awr wedi deg, ac oedfa bregethu yn y prynhawn am dri. Mae pedwerydd Sul pob mis yn Sul arbennig i'r plant. Y nhw sy'n cymryd rhan flaenllaw yn y gwasanaeth, ac maent bob amser yn codi calon ac ysbryd y gynulleidfa.

Pam na ddewch chi'r Cymry sy'n byw yn yr ardal i gyd-addoli gyda ni yn Sardis, ac i sicrhau fod yna Gapel Cymraeg byw yn para yn nhref Pontypridd.

John Davies
Gweinidog

Angel

Siôn Ifan Davies
3 oed.

YSGOL SUL SARDIS

Rwy'n mynd i'r Ysgol Sul yn Sardis bob dydd Sul. Mae Mr Lewis yn dweud y cyhoeddiadau ar ôl inni ganu emynau ac wedyn gwrando ar stori gan y pregethwr. Sardis yw'r unig gapel Cymraeg sydd ym Mhontypridd. Mae llawer o bethau diddorol yn cael eu trefnu. Yn yr haf cawson ni barbaciw a mabolgampau. Aethon ni am benwythnos i Drefeca. Byddwn yn cael parti Nadolig a bydd Sion Corn yn dod ag anrhegion inni. Mae llawer o blant yn dod i'r Ysgol Sul ac mae gennym bump o athrawon. Eu henwau yw Mrs Francis, Mrs Morgan, Mrs Thomas, Mrs Davies, a Mrs Todd. Ry'n ni'n fisi lawn ar hyn o bryd.

Geraint Wyn Todd - 8 oed

Yn yr ysgol Sul rydyn ni'n cael Gwasanaeth Cynhaeaf a mae pawb sy'n gallu yn dod â ffrwythau a llysiau i'r capel. Mae'r bwyd a'r pethau yn mynd at yr ysbyty neu i'r hen bobl.

Rydyn ni'n cael drama Nadolig lle mae plant yn actio. Rydyn ni'n cael parti Nadolig ac ar ôl bwyd mae Sion Corn yn dod â rhoi anrheg bach inni. Eleni fe es i Goleg Trefecca. Daeth fy ffrindiau hefyd a mwynheais fy hun yn fawr. Aethon ni am ben wythnos. Rydym ni'n canu dwy emyn cyn mynd i'r Festri ar ddydd Sul. Rydyn ni'n cael losin gan Mr Lewis. Mae fy mam yn un o'r athrawon. Rydwi'n mynd i'r Ysgol Sul bron bob dydd Sul.

Owain - 8oed

Rydw i yn mynd i ysgol Sul Sardis. Fe aeth rhai plant i Drefeca ar eu gwyliau. Fe es i gyda'r criw. Roedd dau yn cysgu mewn caban. Roeddwn i yn cysgu gyda Ffion. Yn y nos fe gafon ni barti. Dydd Sadwrn aeth pawb i nofio yn Aberhonddu. Ar ôl swper cafon ni wisg ffansi. Gwisgais i fel merch o Japan. Yna aeth pawb i newid i'r mabolgampau. Roedd y mabolgampau yn wahanol i fabolgampau arferol. A wedyn gweld ffilm. Yna i'r gwely dyna pryd oedd yr hwyl. Bore Sul fe gaethon wasanaeth a mynd adref. Diolch am benwythnos mor wych.

Gwen Heulyn Raby

Mae ysgol sul Sardis wedi ail agor ers tua 10 mlynedd. Cyn hyn bu rhaid i'r ysgol Sul gau am fod dim plant yno. Ond erbyn heddiw mae bron 50 o blant yn dod i Sardis. Cychwynais yn yr ysgol Sul pan roeddwn yn dair oed a nawr rwy'n 9 oed.

Enw'r gweinidog ywMr J Davies. Enw athrawon yr ysgol Sul yw Mrs S Thomas, Mrs M Francis, Mr M Thomas, Mrs W Davies, a Mrs Todd. Unwaith y mis rydyn yn cael gwasanaeth i'r plant yn y capel gyda'r gweinidog a rydym i gyd yn cymrhyd rhan. Rydym yn cael barbaciw a mabolgampau yn yr haf a parti ag anrheg da pob Nadolig.

Aeth 15 ohonom i goleg Trefeca ger Aberhonddu ym mis Hydref a cael amser da.

Rwy'n falch o fod yn rhan o ysgol sul Sardis.

gan Twm Davies

Yn yr haf esi Barbeciw yr Ysgol Sul. Roeddwn i yn chwarae pel droed gyda Mr Davies. Roedd Hywel bron a cicio'r bel dros y wal. Os byddai'r bel wedi mynd dros y wal byddai'r bel wedi bwrw ceir yn yr orsaf wedyn cafodd y bechgyn mawr y bel. Roedd y bwyd yn hyfryd. Cawsom cwn poeth, byrgyrs a sgwosh. Roedd bron pob un yn cael cwn poeth a sgwosh a pecyn o greison ac roedd y ciw yn hir. Yna daeth Mr Davies ar gitar i'r plant i ganu llawer o ganeuon fel y Wiwer Fach Goch a wedyn roeddwn yn chwarae pel droed. Roedd pawb yno yn hoffi'r barbaciw.

Pan o ni wedi mynd lawr y grisiau oni fod i helpu Mr Davies.

Alwyn - 7oed.

TREFECA

Mis Hydref diwethaf aeth tua un deg pump o blant yr ysgol Sul i Goleg Trefeca am benwythnos. Doeddwn i ddim wedi bod i ffwrdd ar ben fy hun o'r blaen, ond roeddwn yn gynhyrfus iawn. Roedd hi yn bwrw glaw yn drwm pan gychwynon ni ar y daith ar y bws ond doedd dim ots achos fe gawson ni hwyl yn canu a chwerthin.

Y noson honno fe gawsom ni gwis, swper, ac epilog ac wedyn roedd yn rhaid mynd i'r gwely.

Dydd Sadwrn fe wnaethom ni Gollage o fathodyn Trefeca, ac ar ôl cinio fe aethom ni i bwll nofio Aberhonddu. Wedyn aeth Mrs Thomas a ni o amgylch y siopau i brynu anrhegion. Dydw i ddim yn meddwl fod Mrs Thomas wedi mwynhau ryw lawer achos fe gymeron ni lawer o amser i benderfynu beth oedden ni eisiau prynu.

Nos Sadwrn fe gawson ni gystadleaeaeth gwisg ffansi. Roedd bachgen o Gaerdydd wedi gwisgo fyny fel broga. Fe enillodd y wobr gyntaf. Bore dydd Sul fe gerddon ni i weld cartref Hywel Harris. Dau o'r gloch roedd hi'n amser cychwyn adre. Rydw i'n gobeithio mynd eto i Drefeca ond am wythnos tro nesa.

Elin Angharad - 8 oed

Roedd ysgol Sul Sardis wedi gael ei adeiladu yn 1834 rydw i wedi bod yn mynd yna am bedair blynedd bron bob dydd Sul. Mae'r athrawon yna yn garedig ac yn dda. Rydw i'n hoff iawn o'r gweinidog yn dweud storiau ac yn canu caneuon i ni gyda'i gitar. Rydw i'n hoffi Mr a MrsLewis. Maen nhw wedi bod yna am amser hir iawn. Bob bore dydd Sul mae Mr Lewis yn rhoi losin i bob un o'r plant. Wedyn rydyn ni yn mynd i'r Festri ac yn gwneud liuniau a gwrando ar storiau am Iesu. Pan mae e bron yn amser mynd rydyn ni'n canu ac yn dweud gweddi. Rydyn yn cael Cymanfa Ganu bob Pasg ac mae llawer o bobl yn dod a mae'r canu yn hyfryd a hefyd rydyn yn cael gwasanaeth Nadolig ein ysgol yna, Ysgol Pontsion Norton.

Hefyd rydyn yn cael parti Nadolig yna mae Sion Corn yn dod ac yn rhoi anrheg fach i ni. Rydw i'n hoff iawn o'r ysgol sul.

Samantha Jones - 9 oed

Fe aeth pymtheg o blant i Drefecca am y penwythnos. Ar y noson cyntaf fe ganon ni ac fe gawsom Helfa Wybodaeth. Yn yr Helfa wybodaeth roedden ni fod i weld pwy ddechreuodd Trefecca, a faint o dai bach oedd yno. Roedd y canu'n hwyl hefyd, oherwydd roedd yn rhaid i ni wneud sumudiadau gyda'r canu. Ar y noson honno cawsom Epilog bach.

Ar fore dydd Sadwrn deffrodd pawb yn gynnar iawn, yn barod i Frecwast. Ar ôl brecwast chwaraeon ni yn Nhrefecca am tua awr. Ar ôl cael hwyl, fe aethom ni ar y bws i'r pwll nofio. Yno yn y pwll nofio roedd byrddau delfio. Roeddynt yn uchel iawn, roedd yr un mwyaf tua tair metr o uchder ar llall tua metr a hanner. Fe aethom ni i Aberhonddu i brynu losin a edrych ar y pethau a werthasant hwy yno. Fe gawsom ni wisg ffansi, roedd yn hwyl cael cerdded o gwmpas y lolfa. Wedyn fe aethom ni i'r ystafell chwaraeon i weld fideo.

Roedd y fideo'n ddychryniliyd iawn oherwydd roedd e am anghenfil mewn llyn o ddwr a daeth e mas pob hyn a hyn i ofni'r pobl. Ar ol y fideo fe gawson ni chwaraeon, roedd pump mewn pob grwp ac enillais i ar tim, wedyn fe aethom ni i'r gwely.

Ar fore Sul fe ddechreuon ni i baclo i fynd adref ond roedd rhaid i ni rhoi y gwely yn barod i'r menwod i'w golchi. Cyn mynd, fe aethom ni am dro gyda Mr Roberts am hanes Trefecca ac ar ôl hynny i gyd gadawon ni'r lle a canolbwyntio am y ffordd adre.

Emyr Wyn

CAPEL SARDIS

Agorwyd Capel Sardis yn y ganrif ddiwethaf. Fe ddechreuais fynd i'r Capel pan oeddwn yn dair oed. Mae'r capel yn eitha mawr. Mae festri wrth ei ochr. Rydwi yn mynd i'r capel bob dydd Sul.

Yn gyntaf rydym yn canu emyn ac yna yn cael stori. Wedyn rydym yn canu emyn arall ac yn mynd i'r festri. Yn y festri rydym yn tynnu liuniau, canu neu yn ymarfer sioe y Nadolig neu y cwrdd Diolchgarwch. Yn yr haf rydym yn cael barbaciw tu ôl y capel a wedyn yn cynnal mabolgampau. Ar y nawfed o Hydref aethom ar gwrs Cristionogol i Drefecca i blant saith oed i unarddeg.

Elry Miles

Sardis gan Huw

Bob dydd Sul rydw i a fy nwy chwaer Gemma a Helena yn mynd i Sardis. Fel arfer rydwi'n eistedd ar bwys Adam. Yn y gwasanaeth cynhaeaf roeddwn i fod i ddweud darn wedi roeddwn wed rhoi ffrwythau i'r hen bobl. Ar ôl Sardis rydyn ni'n mynd i dŷ nain i gael cinio.

Sardis gan Siwan Francis

Rydw i yn mynd i'r capel bob dydd Sul gyda Emyr Wyn. Dydy Rhodri ddim yn dod i'r capel achos mae e'n fawr. Rydwi'n hoffi'r capel.

BYWYD
gan
Tom Dom

Y BODA YSGLYFAETHUS

Can mlynedd yn ôl roedd rhifau y bodaid yn yr ynysoedd yma wedi gostwng yn ddifrifol, yn bennaf oherwydd gweithgareddau ciperiaid a oedd yn eu difa. Yn wir, ond mewn ambell i gornel yn yr Alban a Chymru y dalient eu gafael. Ar ôl y Rhyfel Cynta gwelwyd yn eu tro, gostyngiad yn rhifau'r ciperiaid ac o'r herwydd esgynnodd rhifau'r bodiaid yn ddramatig iawn. Wedyn yn y pum degau gostyngiad arall eto, y tro hwn oherwydd y clefyd myxamatosis - hwn yn effeithio ar rhifau'r cwningod wrth gwrs, prif fwyd y boda. Erbyn y dyddiau yma mae tua 10,000 pâr yn trigo yn Ynysoedd Prydain.

Mae'r creadur yn aderyn anhygoel o brydferth. Mae atgof o'i lais yn dwyn i gôf dyddiau heulog, cynnes, diofal, llanc yn crwydro filltiroedd dros gwlad a chaeau ffermydd Sir Gaerfyrddin. Rwy'n cofio fy chwaer fawr (roedd hi wedi gadael ysgol ac yn nyrs ar y pryd!) yn dringo lan i goeden ucha'r plwy i weld os oedd wyau yn nyth y boda. Wrth iddi ddringo cynddeiriogwyd yr adar gan ymosod arni o bob cyfeiriad. Oedd, yr oedd wyau yno, tri ŵy gwyn â smotiau brown wedi eu gosod ar y nyth fflat o frigau, dail a darnau o laswellt.

Er mai cwningod yw prif fwyd y boda, mae hefyd yn ymgymeryd a llygod mawr, llygod y maes, nadrodd a brogaid. Eistedda am oriau ar bolyn lein yn graff edrych am y symudiad lleiaf yn y borfa. Wedyn gyda naid cyflym i'r awyr dysgyniff i'r llawr fel bwled gan gau ei adenydd a suddo ei grafangau angeuol i gnawd yr ysglyfaeth anffodus. Ar adegau arall gwelwn ef yn gleidio gyda'i adenydd yn agored wrth iddo fanteisio ar llif awyr twym a godai i fyny i'r awyr. Pan fydd ar lawr yn chwilio am falwod mae e'n bras-gamu fel clown baglog, gyda'r plu o gwmpas ei goesau yn creu argraff o bâr o drowsus rhydd ar fin disgyn.

Cymwynaswr yw'r boda, yn ein gwaredu o lygod a phoendod. Gwelwn nhw yn amlach yn yr ardaloedd amaethyddol lle bydd pâr yn deiliad ar tua 600 erw o dir. Gyda'r tywydd mwynaidd yr ydym yn mwynhau ar y pryd, bydd digon o fwyd iddynt i wrthsefyll y gaeaf.

Y MYSTERY TRIP

gan Garmon Davies

Ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 28ain aeth Teulu Twm ar 'Mystery Trip'. Y bwriad oedd i gadw pawb yn gyffrous nes cyrraedd y lle. Ond, trwy ryw drugaredd, daeth ein hannwyl weinidog, y Parch. Eirian Rees i flaen y bws i gyhoeddi nad oedd am i neb fynd ar goll neu fe fyddant yn llwgu yn Bath!

Beth bynnag, wedi cyrraedd Caerfaddon fe rannom ni fyny yn grwpiau bach, i fynd o amgylch y siopau. Roedd hi'n ddiwrnod digon ffein ar y cyfan, heblaw am wynt oer. Fe aeth bron pawb i 'Macdonalds' am eu cinio.

Nid oedd y Beefburger yn flasus iawn, gan fod rhyw ffwl wedi'i lenwi â Mwstard.

Nid wyf i'n orhoff o siopa, yn enwedig mewn siopau fel Marks and Spencer's neu Littlewoods. Gwariais i ran fwyaf o'm harian ar Losin.

Cymrodd y rhan fwyaf o aelodau Teulu Twm y dydd yn gyfle i wneud eu siopa Nadolig.

Cafwyd un digwyddiad ofnadwy yn ystod y diwrnod hefyd, pan roedd merched dosbarth 2 yn cwyno fod rhywun yn eu dilyn. Roedd calonnau pawb yn gwaedu drostynt!

Wedi p'nawn o siopa daethom yn ôl i Gaerdydd i weld ffilm yn y Sherman Y ffilm oedd 'The Mission'.

Cyrhaeddom yn ôl yn Nhabernacl Efail Isaf am tua 10.40 yn yr hwyr.

BRO A BYWYD SAUNDERS LEWIS (1893-1985)

Ar 7 Rhagfyr cyhoeddwyd y gyfrol ddiweddaraf yn y gyfres 'Bro a Bywyd'. *Bro a Bywyd Saunders Lewis 1893-1985* yw'r ddegfed gyfrol yn y gyfres boblogaidd hon sy'n cyflwyno rhai o'n prif lenorion drwy gyfrwng ffotograffau.

Golygwyd y gyfrol gan ferch y llenor, Mair Saunders. 'Diolch byth,' meddai ar ddiwedd ei rhestr o ddiolchiadau 'fod fy mam wedi cadw'r holl lythyron, lluniau, cardiau post ac ati.' Mae'r deunydd teuluaidd a phersonol hwn yn sicrhau bod y gyfrol yn un ffres a diddorol sy'n cyfleu agweddau ar Saunders Lewis nad oeddent yn amlwg i'r mwyafrif mawr o'i edmygwyr. Wrth reswm mae yn y gyfrol hefyd luniau a dogfennau sy'n ymwneud â dechreuad Plaid Cymru, y Tân yn Llŷn a chyfansoddiadau llenyddol a gwleidyddol Saunders Lewis.

Ac ystyried statws gwrthrych y gyfrol, does dim rhyfedd i bob copi o'r argraffiad cyntaf werthu mewn byr amser. Fodd bynnag, dylai fod yr ail argraffiad wedi cyrraedd y siopau erbyn hyn. Pris y gyfrol yw £3.95. Argreffir gan Wasg Dwyfor a chyhoeddir gan Gyngor y Celfyddydau.

Enillwyr Tarian CIC

PARTI TEULU TWM

Nos Fercher Rhagfyr yr 16, a dyma fi yn ei throi hi am neuadd y pentref, Efail Isaf i barti Teulu Twm. Cyrhaeddais am tua chwarter i saith ac roedd rhai ffrindiau yna'n barod - gan eu bod wedi cael y fraint o osod yr arlwy! Roedd y bwrdd bwyd yn orlawn - yn 'quiches', salads, tatws pôb, cyw iar, rolliau selsig a cacennau. Mae mamau rhai pobl yn gallu cwcan mae'n rhaid! Roedd Gill yn ôl ei harfer yn gwibio o un lle i'r llall yn gwneud yn siwr bod popeth yn iawn ac yn wir yr oedd - blasus iawn oedd y wledd. Roedd y neuadd wedi ei haddurno'n ddeniadol iawn ac yn creu naws Nadoligaidd hyfryd. Roedd y dewis o fiwsig yn un da iawn a'r offer yn arbennig o effeithiol a soffistigedig. 'Dyw parti ddim yn barti heb gemau - ac wrth gwrs gyda Geraint wrth y llyw, gemau gwirion oedden nhw hefyd a rhai yn ddoniol iawn, sef - pasio'r parsel gan wisgo dilledyn od, bwyta heb weld ac uchafbwynt y noson heb os ac onibai - y gêm gyda'r wyau. Aeth rhan fwyaf ohonom ni'r bechgyn adref gyad'g ŵy ar ein gwynebau! O ie, cawson anrheg hefyd. Diolch yn fawr G., G. a C. - parti da iawn.

Daniel Rochford

PARTI CIC

Ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 12, cynhaliwyd parti CIC, Cymdeithas Ieuenctid Cristnogol, yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Daeth deuddeg o gapeli ac eglwysi o Forgannwg Ganol ynghyd i gystadlu mewn nifer o gystadlaethau i geisio ennill tarian CIC ar ddiwedd y dydd. Roedd cystadlaethau nofio a phêl-droed i'r bechgyn; nofio a phêl-rwyd i'r merched.

Aeth y bechgyn i'r pwll yn gyntaf a'r merched i'r neuadd chwaraeon. Yn y pwll dewiswyd tîm o bedwar i gynrychioli'r capeli ac yna dechreuodd y rasys. Roedd ras gyfnewid i gychwyn gyda pob un yn nofio strôc gwahanol. Ar ôl hyn cafwyd rasys unigol. Cafwyd saith ras yn gyfangwbwl a daeth tîm A Efail Isaf yn gydradd gyntaf gyda Chapel Ebeneser, Caerdydd.

Yn y cyfamser roedd y merched yn brwydro'n galed i ennill y gystadleuaeth pêl-rwyd. Yna amser i newid cyn i'r merched fynd i'r pwll a'r bechgyn i'r neuadd i chwarae pêl-droed. I ennill y pêl-droed rhaid oedd cael y mwyaf o gôliau posib mewn un gêm. Unwaith eto sgoriwyd yr un faint o gôliau gan Efail Isaf A ac Ebeneser felly trefnwyd gêm derfynol i weld pwy fuasai'n ennill. Efail Isaf A gipiodd y safle gyntaf. Roedd y sgôr rhwng y timoedd yn glos iawn wrth i bawb baratoi am y rownd derfynol, y cwis Beiblaidd.

Erbyn hyn roedd yr awyrgylch yn go gyffrous. Cafwyd ugain o gwestiynau i bob tîm a phwynt am bob ateb cywir. Ar ôl rownd glos iawn capel Salem, Tonteg oedd yn fuddugol. Dyma'r foment roedd pob un yn aros amdani - y sgor terfynol. Ar ôl rhai munudau torrwyd y tensiwn pan gyhoeddwyd taw Tabernacl Efail Isaf A oedd y buddugwyr eleni.

I orffen y noson cynhaliwyd disgo yn y neuadd ganol ond cyrff go flinedig oedd yn ceisio ennyn brwdfrydedd i ddawnsio. Rwy'n siwr y byddai pawb oedd yn bresennol yn dymuno diolch i'r trefnwyr am ddiwrnod llawn hwyl.

Yn Eisiau

Fflat neu dŷ i'w rentu i athrawes ifanc yn ardal Pontypridd. byddai'n hoffi rhannu gyda rhywun os yn bosibl. (o fewn rheswm!)

Ffoniwch DYDD - Newton Lantwit 202585

NOS - Pontypridd 404697



Cofiwch am ddiwrnod Crempog ar Chwefror 16.

Gallwch ganu'r hen gân hon.

Mae heddiw'n Fawrth yr Ynyd
A diwrnod Crempog hefyd.
Cawn wledd nes methu symud
Hip, hip, hip hip, hwre!

BLWYDDYN NEWYDD DDA

Ydych chi wedi gwneud addunedau? Tybed allwch chi ddatrys yr addunedau hyn?

?

1. darais mregCya obb sream.
2. lpheu amM.
3. osctalu yf tallysef ewly.
4. dob ny edrgagi rthw bwab.
5. odipei rywceal.

* * *

DATHLU 400 MLYNEDD

Dyma dudalen blaen llyfr lliwio arbennig ar gyfer dathlu pedwar can mlynedd ers cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg gan yr Esgob William Morgan.

CROESAIR GAEAF



AR DRAWS.

1. Byddwch yn bwyta hon ar Fawrth yr Ynyd.
4. Ffrwyth.
5. deg cant.
8. Bydd hwn ar ôl yn y grât ar ôl Mawrth yr Ynyd.
10 Afon.
13 Wnaethoch chi un ar Ionawr y laf?

I LAWR

1. Byddwch yn rhoi cerdyn i hwn neu hon ar Ddydd Santes Dwynwen.
2. Y fenyw orau yn y byd.
3. Mae hwn yn diferu'r tir.
7. Ennillodd Guto Nyth Brân un o'r rhain.
8. Doedd dim lle i Mair a Joseff yn un o'r rhain.
9. Mamgu yn y Gogledd.
11 Gwraig y ci.

APEL PENBLWYDD SYR WYNFF A PLWMSAN

Mae Syr Wynff ap Concord a Plwmsan yn bymtheg oed eleni ac i ddathlu'r achlysur maent wedi lansio apêl arbennig i brynu anrheg penblwydd.

Ond nid iddyn nhw'u hunain y bydd yr anrheg.

Bwriad y ddau yw casglu digon o arian i brynu bws mini wedi ei addasu ar gyfer cludo pobl anabl, a maen nhw'n gobeithio cael cymorth eu ffrindiau trwy Gymru gyfan i gyrraedd y nod o £15,000.

Ac mae'n nhw'n rhybuddio bod slepjan yn disgwyl y sawl sy'n gwrthod cyfrannu!

Dywedodd Plwmsan eu bod yn gobeithio y byddai ysgolion, canghennau o'r Urdd a chlybiau ieuenctid yn dyfeisio ffyrdd o gasglu arian i'r gronfa er mwyn medru trosglwyddo'r bws ar Ddydd Gŵyl Dewi.

"Mae Syr Wynff a minnau'n fodlon ymweld ag ysgolion a mudiadau ieuenctid i dderbyn unrhyw roddion, a diddanu'r plant yr un pryd", meddai Plwmsan.

Pan nad yw'n chwarae rhan Plwmsan mae Mici Plwm yn drefnydd Cronfa'r Jiwbili yng Nghymru ac felly mae'n ymwybodol iawn o'r angen am drafnidiaeth arbennig ar gyfer pobl anabl. Dyna pam y penderfynodd ef a Wynford Ellis Owen ddathlu eu pymtheng mlynedd fel tîm yn y ffordd hon.

Fel arfer mae cynlluniau Syr Wynff a Plwmsan yn fethiannau llwyr, ond y tro yma maent yn benderfynol o lwyddo, ac maen nhw eisioes wedi sicrhau cefnogaeth Clwb S4C i'r fenter.

Dylid anfon pob cyfraniad i 'Gronfa Penblwydd Syr Wynff a Plwmsan', d/o Banc Lloyds, 11 Stryd y Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd LL55 1AH.

SYR WYNFF AP CONCORD Y BOS A PLWMSAN Y TWMFFAT TWP.

CYSTADLEUAETH GWYL DDEWI

tafod elái 1988

Dan 6 oed

a) Tynnu llun "Mamgu" ac ysgrifennu brawddeg.
neu
b) Ysgrifennu am "Y Parti"

6 - 8 oed

a) Lluniio poster i hysbysebu eich hoff raglen deledu
neu
b) Ysgrifennu stori am "Y dewin drwg".

8 - 10 oed

a) Lluniio siaced lwch ar gyfer eich hoff lyfr.
neu
b) Ysgrifennu am "Y diwrnod pwysicaf yn fy mywyd".

10 - 12 oed

a) Lluniio cartŵn am ddigwyddiad doniol yn yr ysgol.
neu
b) Barddoniaeth "Y deinasoriaid" neu "Y canwr pop"

Dosbarth 1 a 2 Ysgolion Uwchradd

a) Lluniio clawr i dâp caset cân bop.
neu
b) Creu deialog rhwng William Morgan â rhywun o'r oes hon.

Rheolau

1 Rhaid i bob cystadleuydd fod yr oedran iawn.
2 Rhaid i bob cystadleuydd roi ei enw, oed a'i gyfeiriad.
3 Ni ddylai'r lluniau/cloriau/cartwnau/posteri fod yn fwy na phapur ffwlsgap.
4 Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd
NAWDD-DIR,
HEOL COEDPENMAEN
TRALLWNG
PONTYPRIDD

erbyn Dydd Sadwrn, 6 Chwefror 1988.

Ni dderbynir unrhyw gynnyrch ar ôl y dyddiad hwn!

Gawsoch chi lyfr newydd CARYL am y Nadolig?

Dyma Caryl yng nghwmni disgyblion Ysgol Gyfun Llanhari.

Cofiwch fod llyfr CARYL ar gael am £3.50 ac yn werth bob ceiniog os ydych am gael hanes Lavinia, Delyth a Bethan ac wrth gwrs Caryl Parry Jones.

COLLI NANSI

Roeddwn wedi cael orders gan y Pwyllgor Golygyddol i wneud Portread y Mis ar gyfer rhifyn Mawrth ar Miss Nancy Millward, Gwaelod y Garth. Crybwyllais wrthi ddechrau Rhagfyr am ddyhead y Pwyllgor ac am fy orders innau, ac wedi iddi hi chwerthin ac ebychu bob yn ail, a phledio na fuasai gan neb yn y byd ddiddordeb yn ei hanes hi o bawb, dyma gydsynio, ar un amod - "O.K." meddai, "but no picture".

Yn anffodus, chefais ddim cyfle i gadw oed â hi a'i hamod, oblegid ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, ar Ragfyr 15ed, 1987, a hithau yn brin fis tros ei 83 mlwydd oed, bu farw Nansi merch Jenat merch Morgan bachan Siôn o'r Lan.

Cysylltai'r ach hon wrthrych yr edmygedd â gwythien fawr Gwaelod y Garth. Fe wyddai'r pentrefwyr hynny ac fe ymfalchiai Nansi hithau yn ei gwreiddiau. Yn y Gwaelod y ganwyd ac y magwyd ei holl deulu; o gwmpas y pentref a'r capel y trôi holl weithgareddau ei 83 blynedd hithau. Yr oedd yn rhan o'r Garth y naddwyd hi ohono. Naddwyd rhan o'r Gwaelod o Nansi.

Mae'n chwith meddwl felly mai nid eistedd i lawr a ysgrifennu pwt am y Frenhines o 4, Garth Villas, a wnaf yn awr, ond ceisio llunio mymryn o atgofion a chyfleu esgus o deyrnged am un y bydd cymdeithas gyfan, ac yn sicr Eglwys Bethlehem, Gwaelod y Garth yn hiraethu ar ei hôl.

Fe'i cofiaf yn ymadael â'r capel ar y Sul olaf hwnnw wedi inni wrando ar Gôr y Ganolfan, Caerdydd yn ein harwain i gyfeiriad y Nadolig. Yn wir, wedi inni gyd, yn ôl ein harfer ers sawl blwyddyn bellach, gael te a mins peis yn y festri wedi'r gwasanaeth. Ymlwybrai'n fusgrell braidd tua'i chartref - a minnau bryd hynny yn ddiarwybod yn ei gweld yn tramwyo tuag Adref.

Roedd na groeso yn ei chartref bob amser, yn wir caech 'Groeso' ar y mat cyn ichi fynd trwy'r drws, a chwith meddwl na fydd selogion oedfaon bore Sul ym Methlehem bellach yn gallu parhau'r gwasanaeth yno gyda phaned o de chwilboeth mewn cwpanau 'china' drudfawr, bisgedi ffansi (rhai siocled ar gyfer y plant fel arfer), a sgwrs felys am hyn ac arall boed bwysig neu ddibwys.

Fel y soniodd ei Gweinidog, y Parchedig T.J. Davies yn y gwasanaeth angladdol, os bu i gapel erioed gael Tŷ Capel yng ngwir ystyr y gair, yna Bethlehem oedd y capel hwnnw a 4, Garth Villas oedd y Tŷ capel. Gofalai am allweddi'r Capel, a phob un o rheini wedi ei labelu a'i gosod mewn cist bren fechan ar y chwith wrth i chwi fynd trwy'r drws. Sawl tro y galwai rhywun yno eisiau mynediad i'r Capel - at yr Organ, at y Boiler, at y trydan, at y nwy, at yr offer atal tân, at ymarfer drama - pawb yn ei dro, a hithau mor barod a'i gwên a'i chymwynas a'i gofal am bawb fel ei gilydd.

Fe'i hetholwyd yn ddiacon yn y Capel ychydig flynyddoedd yn ôl, ond roedd Nansi wedi bod yn gweithio'n ddygn ymhell cyn hynny, ac fe fydd hi'n anodd rhestru ei gweithgarwch distaw, diddiolch yn aml, hyd nes y sylweddolwn rhyw ddiwrnod mai hi fyddai'n gwneud hyn ar llall, megis gofalu am y llestri cymun, (a'r ymborth ar gyfer y gwasanaeth hyd at rhyw flwyddyn yn ôl), a hi fyddai'n gofalu am fod y lliain gwyn ar fwrdd y cymun neu fedydd yn cael ei olchi a'i smwddio o fis i fis. Os byth y byddai angen blodau yn y llestr ger y pulpud (pan fyddai teulu'r Castle's ar eu gwyliau), yna yn ddifeth, byddai wedi gofalu bod lliwiau'r haf neu'r hydref yn harddu'r lle.

Fe sylweddolwch rwy'n siwr, o'r uchod, fod na le arbennig yn ei bywyd i gapel Bethlehem, Gwaelod y Garth, ac yn sicr byth, fod na le arbennig yng nghalonnau aelodau a chymdeithas y Capel i Nansi.

Ond roedd ardal gyfan yn ei dyled iddi hefyd, fel athrawes yn sicr yn ystod y cyfnod hyd at ei hymddeoliad, ac yna wedi hynny, fel un a weithiai yn ddiflino gyda phensiynwyr y cylch. Y hi fyddai'n rhoi siars i hwn ac arall fod yn rhaid iddynt ddod i annerch y pensiynwyr ar bnawn Mercher. O mor anodd oedd gwrthod, o mor falch yr ydwi bellach fy mod wedi ufuddhau i'w gorchymyn yn ystod mis Tachwedd diwethaf. Y hi fyddai a gofal am y te, y llefrith, y siwgr â'r bisgedi ar gyfer y prynhawn , a'r cwbl wedi ei osod yn daclus mewn basged wellt i'w gludo ar draws y ffordd i'r neuadd - y fasged yn un llaw a'i ffon yn y llall.

Y hi hefyd oedd yng ngofal hel arian Nadolig y pensiynwyr, pob un yn rhoi ei arian iddi yn blygeiniol ar ddechrau'r cyfarfod, ac yn disgwyl yn eiddgar amdano ar ddiwedd y tymor. Cefais fraw a syndod yn wir o sylweddoli'r symiau a drafodid ganddi a gwn hefyd, yn enwedig yn y pen olaf yma ei bod mewn cryn benbleth a gofid tra'n sicrhau fod y cownt yn iawn. Mae pob dyled wedi ei thalu erbyn hyn, ond chwith yw meddwl fod yr hen lyfr cownt bellach yn segur.

Efallai i rai ohonoch wrando ar Oedfa'r Bore ar Sul cyntaf y flwyddyn hon, Gwasanaeth o Fethlehem, Gwaelod y Garth a recordiwyd ar Sul olaf mis Tachweddd y llynedd. Roedd Nansi yno. Fe fydd Nansi yno eto yng nghof a chalon pob un ohonom.

Cefais gerdyn penblwydd ganddi ddechrau mis Rhagfyr, ac fe ysgrifennodd arno'r geiriau "gyda llawer iawn o ddiolch, Nancy".

Pitw iawn yw fy nghyfraniad i Nansi fach, ichi mae'r diolch.

Rh.G.J.

CYFLE ARBENNIG I FENYWOD DDECHRAU GYRFA NEWYDD

Bydd Cwrs 'MERCHED A THECHNOLEG'
yn dechrau ar 29 Chwefror 1988
yn Maes yr Eglwys, Tonteg,
Anedd i Bolitechnig Cymru.
Bydd y Cwrs yn parhau am 9 Wythnos, 5 diwrnod yr wythnos

Ffi y Cwrs yw £30 ac i gael manylion pellach
ac i drefnu eich lle ar y cwrs cysylltwch â
Eris Willis, Politechnig Cymru, Pontypridd.
Ffon 0443 480480 Est. 2389
neu: 0222 890770 yn yr hwyr.

YNYS-Y-BWL

Gohebydd Lleol: Nansi Valentine.

Eglwys Noddfa

Derbyniwyd dau aelod newydd ar Nos Sul Tachwedd 15, sef Mrs Margaret Jones a Mr Jeff Evans. Yn ystod y gwasanaeth cymerodd y ddau'r Cymun am y tro cyntaf. Gweinyddwyd gan y Gweinidog y Parch Gwilym Davies.

CRISTNOGION YN ERBYN POENYDIO

Cynhaliwyd cyfarfod yn Eglwys Noddfa o dan nawdd Cwrdd Dosbarth Bedyddwyr Caerdydd. Da oedd gweld cymaint yn bresenol i wrando ar y Parch Roy Jenkins, Ysgrifennydd 'Cristnogion yn erbyn Poenydio' yn siarad am y sefyllfa bresennol.

EGLWYS SEION

Fel rhan o ddathlu Blwyddyn Ewropeaidd, mae Eglwys Seion wedi anfon cardiau Nadolig i Eglwysi Bedyddiedig yn Gdansk, Budapest a Sofna.

FFAIR NADOLIG

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus eleni eto yn Ysgol y Babanod, Glanffrwd ar Nos Iau Rhagfyr 10fed. Siôn Corn wrth gwrs oedd y person mwyaf poblogaidd yno. Trefnwyd y noson gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol. Diolch i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant y noson.

DOSBARTHIADAU CYMRAEG

Mae'r dosbarthiadau yn parhau y tymor hwn yn Ysgol Trerobart am 7 o'r gloch bob nos Fercher o dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr. Croeso i ddechreuwyr a'r rheini sydd yn fwy profiadol. Am fanylion pellach ffoniwch Ynysybwl 790460.

NOSON GYMRAEG

Cynhaliwyd Twmpath Dawns nos Lun, Ionawr 18ed yn y Clwb Cyfansoddiadol (Constitutional Club). Roedd y noson yn rhan o ymgyrch i gael dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ynghyd i ymarfer eu hiaith.

GWASANAETHAU'R NADOLIG

Cynhaliwyd nifer o wasanaethau dros y Nadolig.

Ar nos Fawrth, Rhagfyr 15ed, tro plant y Gobeithlu Undebol oedd hi pan gynhaliwyd Gwasanaeth Golau Cannwyll yn Noddfa.

Ar y Sul cyn y Nadolig cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Undebol yn Noddfa gyda Côr Meibion Ynysybwl, Band Arian y Lady Windsor, Côr Ellis, a chôr Plant Ysgol Trerobart. Aeth elw y noson i Mencap, elusen Noddfa am y flwyddyn.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau gyda'n ieuenctid ar Noswyl y Nadolig yng Nghapel Glyn Street.

Fore Nadolig cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun Undebol yng Nghapel Seion o dan ofal y Parch David Smith.

MEISGYN

ADREF O'R U.D.A.

Braf oedd gweld Jane Davies, Ceulan, adref dros y Nadolig o'r Unol Daleithiau. Dychwelodd bellach i ail gydio yn ei chwrs ym Mhrifysgol Virginia, Norfolk.

CYNLLUN CYMUNEDOL

Sylwais fod arwydd ers diwedd y flwyddyn o flaen adeilad y Sgowtiaid, sef yr hen felin flawd ger yr afon, a'r geiriau "Community Project" arno. O fynd i holi ynglŷn â'r gwaith yma cefais ar ddeall fod y safle hwn yn un rhyngwladol i'r Sgowtiaid a bod y Swyddfa Gymreig eisiau gwella'r amgylchfyd.

Mae tua hanner dwsin o ddynion ifanc yn gweithio yno o dan gyfarwyddyd, gan ail adeiladu waliau trwchus o gwmpas talcen a chefn yr hen felin hyd at yr hen fwthyn cyfagos, a bydd y tir o fewn y wal wedi ei balmantu.

Y tu cefn i'r hen felin mae tua chwe caban pren. Byddant yn cael eu dymchwel er mwyn codi adeilad newydd at goginio ac yn y blaen pan fo'r tywydd yn arw.

Mae'n debyg y cymer y gwaith tua blwyddyn i'w gwblhau, ac mae cwmni arall yn ail-osod ffenestri a drysau oddi mewn i'r hen felin. Bydd yn ddiddorol iawn gweld y gwaith wedi ei gwblhau.

LLANTRISANT

Gohebydd lleol: Eirlys Lamb (225066)

GWOBR AM DRAETHAWD

Llongyfarchiadau i Llinos Price ar ennill y wobr dan 11 oed yng Nghystadleuaeth Goffa Dillwyn Lewis. Enillodd Llinos £10 ynghyd â llyfr gwerth £15 i'r ysgol am ysgrifennu traethawd ar hanes Llantrisant. Bydd enw Llinos yn cael ei dorri ar y llyfr i atgoffa cenedlaethau'r dyfodol am ei gwrhydri!

NOSON DDIDDOROL O GANU CAROLAU

Ar y Nos Fercher cyn y Nadolig cynhaliwyd noson yn nhafarn y Cross Inn i godi arian i'r elusen LATCH. Trefnwyd y noson gan Bob Swain a chymerwyd rhan gan ei gerddorfa siambr - y mwyafrif ohonynt yn ddisgyblion neu'n gyn-ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Llanhari.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Ddiwedd y tymor diwethaf ffarweliwyd â Mr John Pugh, prifathro'r ysgol ers ei sefydlu dros ddeng mlynedd yn ôl. Anrhegwyd ef gan y staff a'r pwyllgor rhieni ar ran y rhieni a gyflwynodd iddo wydrau a decantydd o wydr grisial fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'i wasanaeth a'i arweiniad dros y blynyddoedd. Dymunwn yn dda iawn iddo yn ei swydd newydd.

Mae'r un dymuniadau da yn mynd i'r prifathro newydd, Mr Gerwyn Williams sy'n symud atom o Waelod-y-garth lle bu'n ddirprwy brifathro. Croeso mawr iddo i Lantrisant.

Newyddion drwg oedd yn ei ddisgwyl ar ddechrau'r tymor fodd bynnag, sef bod lladron wedi torri i mewn i'r ysgol ddwywaith yn ystod y gwyliau ac wedi dwyn offer fel setiau teledu a pheiriannau fideo.

Mwy o reswm nag arfer felly i bawb gefnogi'r ffair sborion flynyddol! Cynhelir hi yn Neuadd Gymuned Tonysguboriau am 10.00 fore dydd Sadwrn, 27 Chwefror. Cysylltwch ag un o aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon os gwelwch yn dda os oes sborion gennych neu os ydych yn fodlon cyfrannu cacennau neu fisgedi i'w gwerthu.

MARWOLAETH

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Christopher Morgan, Llantrisant, yn ystod mis Ionawr. Roedd Mr Morgan yn ei ganfed flwyddyn ac yn ddiacon a chyn-drysorydd yng Nghapel Soar.

MERCHED Y GARTH

Ar Nos Sul, 28 Chwefror, bydd y Merched yn canu yn Ebeneser, Charles Street, Caerdydd, mewn gwasanaeth a drefnir gan Ferched y Wawr Bro Morgannwg i ddathlu pedwarcanmlwyddiant cyfieithu'r Beibl.

DIOLCH AM WASANAETH GWEINIDOGION A DIACONIAID BETHLEHEM

Edrych i gyfeiriad Bethlehem y gwnaethom dros gyfnod y Nadolig, ond o Fethlehem y daw'r stori hon. A bod yn fanwl, o Fethlehem, Gwaelod y Garth ac nid Jiwdea! Cawsom flas ohoni yn rhifyn Tachwedd **Y Tafod**, yng ngholofn Ffynnon Taf a Gwaelod, ac yn sicr mae aelodau Eglwys Bethlehem yn eitha cyfarwydd â'r digwyddiadau.

Cyfeirio yr ydwyf at ddau ddigwyddiad o bwys ar Sul olaf mis Medi a Sul cyntaf Hydref eleni.

Digwyddiadau o bwys a ddywedaf oherwydd ystyriwch y canlynol!

Pa sawl eglwys sydd yn gallu honni bod yn eu mysg ddau weinidog ordeiniedig, sydd rhyngddynt wedi rhoi wythdeg mlynedd o wasanaeth i'r Annibynwyr a'r Methodistiad fel ei gilydd - deugain mlynedd yr Un. Mae'n swnio'n well yntydi - rhag ofn ichi feddwl mai giang o henafgwyr sydd yno ym Methlehem.

Ond arhoswch, cyn ichi ddiystyru hynny fel joc, beth am hyn ynte? Pa sawl eglwys sydd yn gallu honni bod yn eu mysg dri diacon sydd rhyngddynt â chyfanswm o 257 blwyddyn o oedran (ac mae'r ieuengaf yn 83 mlwydd oed), a bod un ohonynt wedi rhoi 55 mlynedd o wasanaeth yn y set fawr ym Methlehem. Scersli bilif medda chi.

(Prysuraf i ddweud hefyd fod na wyth diacon arall yn yr un eglwys yn eu tridegau, ac mae'r gweddill rhywle yn y canol rhwng y ddau grwp!)

'Roedd y ddau Sul arbennig yma yn gyfle i dri cymeriad hel atgofion a gadael i'w dychymyg eu tywys trwy lwch deugain ac yn wir hanner canrif a mwy.

Yn ôl i'r flwyddyn 1932 yn hanes T.W. Thomas, Pentyrch - y fo wedi gweld newidiadau di-rif yn ystod ei "deyrnasiad" yn y set fawr ac yna yn mynnu mai teyrnged yn gymaint i'r genhedlaeth hyn ym Methlehem, ei gymdeithion ar y daith cyhyd, oedd y dathlu ar Sul cyntaf Hydref. Profiad arbennig oedd gwrando ei lais mwyn, a'i acen gref, yn traethu hynt a helynt cymeriadau'r eglwys.

Gwefreiddiol oedd gweld a theimlo'r awyrgylch pan ddaeth y deisen ddathlu enfawr gerbron yn y set fawr.

Blasus iawn oedd cael tamaid o'r deisen gyda paned o de ar ddiwedd yr oedfa. (Diolch i Luned Davies-Scott am y deisen gyda llaw!) Fel y crybwyllwyd y mis diwethaf, cyflwynwyd copi ffacsimili o Feibl William Morgan i T.W yn gynharach ym mis Tachwedd, wedi dyddiad ei gyhoeddi, fel arwydd o werthfawrogiad Eglwys Bethlehem am ei wasanaeth cyhyd,

Mae sôn am y ddau arall megis sôn am ieuenctid o gymharu a T.W ond mae'n werth sôn serch hynny.

Fel y mynegwyd eisoes, dau weinidog, a'r naill fel y llall wedi rhoi deugain mlynedd o wasanaeth i'r eglwys yn eu gwahanol ffyrdd, ac yn wir i'w gwahanol enwadau. Mae'r Methodist wedi troi yn Annibynwr bellach, a theg yw cofnodi felly mae'r Annibynwyr sydd ar eu hennill o'r herwydd. Mae un o hyd yn weinidog ar eglwys, a'r llall yn y sêt fawr, ond ei lyfr bach yn llawn i'r ymylon.

Sôn yr ydwi wrth gwrs am weinidog Bethlehem, Y Parchedig T.J. Davies, ac am y Parchedig Ifor Rees.

A dyna ichi le yn y set fawr y Sul hwnnw! 'Roedd y ddau am y gorau yn sôn am eu dyddiau coleg, eu heglwysi blaenorol, eu gyrfaeoedd arbennig tu allan i waith fel gweinidogion, ond yr un o'r ddau am gyfaddef pwy oedd yr hynaf o ran oedran serch hynny!

Cyflwynwyd pecyn o lyfrau i'r ddau ohonynt fel arwydd o werthfawrogiad eglwys Bethlehem am eu cyfraniad yn y gorffennol, ac am eu hymlyniad a'u hyder i'n harwain i'r nawdegau a thu hwnt.

Ar ran cynulleidfa a chyfeillion Bethlehem, ar ran yr ardal, ac yn wir ar ran Cymru benbaladr, Diolch ichi bois, y tri ohonoch.

Yn ei ddull dihafal ei hun, 'roedd y Parchedig Ifor Rees wedi cyfansoddi cerddi i gofnodi'r ddau achlysur a theg ydyw eu rhannu â chwi'r darllenwyr i'w mwynhau. Dyma nhw:-

[Ysgrifennwyd yr erthygl uchod cyn marwolaeth disymwth dau ddiacon yn yr eglwys sef Miss Nancy Millward a Mr Eirwyn Evans]

I gyfarch Mr T.W. Thomas
am hanner canrif a mwy o wasanaeth
fel diacon yn Bethlehem, Gwaelod y Garth

Y gwylaidd ŵr o'r Gwaelod
A Chymrawd yr Eisteddfod
Hawddamor, a chyfarchion lu
Ar ddydd y dathlu hynod.

Englynwr da a phrydydd
A thenor, a hanesydd
A phen gymodwr ymhob cur
Rhwng gwŷr Pentyrch a'i gilydd!

Bu'n hael ei gymwynasau
I fyrdd o gymdeithasau
Heb anghofio'r ddyled fo
I'w fro ac i'w berthnasau.

Fe gafodd sawl anrhydedd
Gan Genedl a Gorsedd
Ond cyd-addoli yng nghwmni'r saint
Yw pennaf fraint ei fuchedd.

O ddynion yr hawddgara
Pob cwmwl fe wasgara
Bu'n ffyddlon was i Fethlehem
A'i drem ar Fryn Calfaria.

A heddiw am T.W.
Y diacon diledryw,
Mawrygwn hanner canrif faith
O wir wasanaeth clodwiw.

Y Deugain Mlynedd Hyn; Gwaelod y Garth
27/9/87
(diolch am rodd o lyfrau newydd)

Mawr ddiolch i chi gyfeillion prin
Am nodi'r Deugain Mlynedd hyn,
Ac estyn i mi anrheg ysblennydd
I loywi tipyn ar fy ymennydd,
A thrwytho'r pechadur hwn yn y "pethe"
Rhag iddo roi i chi hen bregethe.
Perygl y sawl sy ar ei bensiwn
Yw cyfyngu bywyd i un deimensiwn
Edrych yn ôl a phentyrru clod
Ar ogoniannau sy wedi bod;
Bydd rhain yn help rhag y cyfryw ddianc
Ac yn gymorth mawr i fi gadw'n ifanc,
Cans mewn eglwys sy mor ifanc wyryfol
Mae hi bron yn echod i fod yn hynafol;
Set Fawr yn llawn o gryts a chrotesi
O ddiaconiaid yn ein hanwesu,
Mae Eirwyn, T.W. a fi ar fy llw
Yn methu â chadw i fyny â nhw,
A T.J. yn brwydro i gadw'n hoyw
Gyda'i grysau lliwgar a'i gap pigloyw;
Eto, diolch cywir i bob aelod
O eglwys Gynulleidfaol y Gwaelod
Am i chi beidio â bod yn brin
O gofio'r Deugain Mlynedd hyn;
Mae eich hynawsedd a'ch consyrn golau
Y bore 'ma yn siarad "cyfrolau".

Ifor Rees

COLOFN Y DYSGWYR

Bob nos Lun mae tyrfa fach o drigolion y Creigiau yn cael tipyn o sbri wrth gwneud tipyn o waith mewn dosbarth Cymraeg i ddechreuwyr yn yr ysgol leol.

Mae bron tri deg o bobl yn mynychu'r dosbarth sy'n cael ei drefnu gan Adran Efrydiau Allanol, Coleg Prifysgol, Caerdydd. Yr athrawes frwdfrydig ifanc yw Delyth Jones, sy'n dod o Lanelli yn wreiddiol ac yn dysgu Cymraeg yn Ysgol Bryn Hafren, Y Barri, ar hyn o bryd. Mae Delyth yn dweud fod y dysgwyr yn ddifrifol am ddysgu'r iaith ac felly mae'r dosbarth yn llwyddiannus.

Yn nodweddiadol o agweddau'r dysgwyr mae Caryl Griffiths o Barc y Fro sy'n dysgu'r iaith oherwydd fod ei merch, Bethan, yn ddisgybl yn Uned Gymraeg, Ysgol Creigiau. Dechreuwr arall yw Ian Davies sy wedi dod i Gymru gyda'i waith ac mae am ddarganfod rhywbeth am ein hiaith a'n traddodiadau.

Mae rheswm da dros ddysgu Cymraeg gan Sue Jones, Parc y Felin, Cymro Cymraeg yw gwr Sue, sef Alan Jones, ac mae nhw'n gobeithio siarad gyda'i gilydd yn y Gymraeg cyn bo hir. Clywodd Sue am y dosbarth yn **Nhafod Elai!**

Llongyfarchiadau i Delyth Jones a phob lwc i ddosbarth Creigiau yn y dyfodol.

Llun:
Ian Davies gyda Sue Jones.

Atebion Croesair y Plant

Ar draws	I Lawr
1. crempog	1. cariad
4. afal	2. mam
5. mil	3. glaw
6. iâr	7. ras
8. lludw	8. llety
10 Taf	9. nain
13 adduned	11 ast

Annwyl Olygydd

Prifysgol Cymru
Cathays Park
CAERDYDD
CF1 3NS

CWRS CEFNDIR 1988

Tybed a fyddai gan ddysgwyr profiadol yn eich ardal ddiddordeb mewn Cwrs Cefndir a gynhelir ym Mawrth 1988 yn Llanbedr Pont Steffan? Neu efallai bod eich darllenwyr yn nabod dysgwyr lleol sydd am wella eu gwybodaeth o'r Gymraeg a'n diwylliant.

Fe'i trefnir gan Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion yng Nghaerdydd ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn ddigon sicr eu gafael ar yr iaith lafar ac yn awr am ehangu eu gwybodaeth am Gymru a'i diwylliant yn ogystal â datblygu eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn hytrach nag ar ddysgu'r iaith yn ffurfiol.

Tybed a allwn ofyn, drwy golofnau'r papur, i'ch darllenwyr dynnu sylw dysgwyr lleol at y cwrs hwn?

Os ydych am fwy o fanylion, cysylltwch â Geraint Wilson-Price, Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, 22 Heol y Parc, Cathays, Caerdydd (0222) 390980.

Yr eiddoch yn gywir

Geraint Wilson-Price
CYNORTHWY-YDD I'R SWYDDOG YMCHWIL A DATBLYGU DYSGU CYMRAEG I OEDOLION

DAVISON
ARGRAFFWYR

LLYFRAU A LLYFRYNNAU
PAPURAU NEWYDD A
CHYLCHGRONAU
TAFLENNI
PAPUR YSGRIFENNU
MASNACHOL
3, JAMES PLACE,
TREFOREST.
PONTYPRIDD 400585.

CWM RHYMNI 1990

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
CWM RHYMNI
4-11 Awst 1990

Dewiswyd y Logo uchod ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni a gynhelir ym Mharc Bryn Bach, rhwng 4-11 Awst 1990.

Mae'r logo syml yma yn canolbwyntio ar ddau o brif nodweddion Cwm Rhymni, sef y bontffordd a welir hyd y dydd yma yn y Cwm, a'r Afon Rhymni a ddarlunir yn null sglodyn silicon.

Cynlluniwyd y logo gan gartograffydd 36 mlwydd oed o Gaerffili, Alan Grant. Bu Mr Grant yn byw yn Nantyglo, Gwent, tan yn 13 mlwydd oed, a bu'n byw yn ystod ei arddegau yng Nghasnewydd. Astudiodd Ddaearyddiaeth a Daeareg yn y Coleg cyn cael ei hyfforddi fel cartograffydd yn Llundain. Bu Mr Grant yn gweithio fel cartograffydd yn y Swyddfa Gymreig ers 12 mlynedd.

Enillodd Mr Grant wobr o £300 am ei gynllun, rhodd Cymdeithas Gelfyddydau De-Ddwyrain Cymru. Trosglwyddwyd y siec i'r buddugol gan Gadeirydd y Gymdeithas, Y Cyngh. Ann James mewn seremoni fechan yn Swyddfeydd Cyngor Ardal Cwm Rhymni brynhawn Iau, 17 Rhagfyr 1987.

BEIBL NEWYDD

Ar Ddydd Gŵyl Ddewi bydd Cymru'n dathlu cyhoeddi **Y Beibl Cymraeg Newydd**, cyfieithiad cwbl newydd o'r Beibl i Gymraeg cyfoes.

Cyhoeddir Y Beibl Cymraeg Newydd gan Gymdeithas y Beibl, ac y mae'n ffrwyth chwarter canrif o weithgarwch cyson gan ysgolheigion beiblaidd a llenyddol a chynrychiolwyr eang o enwadau trwy Gymru.

Bydd Y Beibl Cymraeg Newydd ar gael ym mhob siop lyfrau da o Fawrth 1 ymlaen. Gellir dewis rhwng pump o wahanol argraffiadau gyda'r Clawr Meddal am £6.50.

CHWARAEON

DISGYBLION LLANHARI AR Y BRIG

Mae dau o ddigyblion Llanhari o ardal Tonteg wedi gwneud enw iddynt eu hunain ar y meysydd chwarae yn ddiweddar.

Dewiswyd Tony Orrel i chwarae rygbi dros Gymru yn erbyn yr Alban. Mae Tony yn chwarae yn y rheng flaen a hwn yw ei ail dymor yn y tîm cenedlaethol. Gyda thipyn o lwc caiff chwarae i'r tîm eto'r tymor nesaf gan mai ar ei flwyddyn gyntaf yn y chweched y mae Tony eleni.

Hedfanodd Richard Hughes gyda thîm criced ysgolion Cymru i Barbados tua diwedd Tachwedd. Daeth yn ôl i'r ysgol ar ddechrau'r tymor hwn gyda lliw bendigedig ar ei groen ar ôl treulio tair wythnos ar ynysoedd y Caribi mewn tymheredd oedd o gwmpas 25'C bob dydd.

Batiwr yw Richard a chyfrannodd yn helaeth at lwyddiant y tîm cenedlaethol yn Barbados. Sgoriodd yn dda ym mhob gêm a chwaraeodd a'i gyfartaledd ar ddiwedd y daith yn 38 rhediad.

Tony Orrel

Richard Hughes

NOFIO DROS Y SIR

Dydd Sadwrn, 16 Ionawr cynhaliwyd gala nofio genedlaethol chwaraeon Urdd Gobaith Cymru ym mhwll nofio Bangor. Cynrychiolwyd y sir gan Esyllt Swain o Ysgol Llantrisant yn y ras gefn dan 10 oed a chan dîm o nofwyr yn y ras gyfnewid dan 10 oed, sef James Williams, Alun David, Gareth Davies a Gareth Norcup, i gyd o Ysgol Llantrisant. Llwyddodd y tîm hwn i gyrraedd y brig gan ddod yn drydydd mewn ras agos iawn. Roedd y tri thîm a ddaeth yn gyntaf, ail a thrydydd i gyd o fewn trwch blewyn, neu drwch eiliad, i'w gilydd.

Cynrychiolwyd y sir hefyd gan Bethan Gibson o Ysgol Gartholwg a oedd yn nofio yn y ras rydd i ferched dan 12 oed.

Alun David, Rhys Davies
Gareth Norcup a James Williams

TONTEG

Gohebydd Lleol: Sian Jones.

MERCHED Y WAWR

Ar nos Wener, Chwefror 26ain bydd aelodau Merched y Wawr yn cynnal noson ar y cyd gyda Chymdeithas Gymraeg Llantrisant i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd Dowlais. Bydd tocynnau ar werth gan aelodau'r ddwy gymdeithas. Dewch yn llu!

CYLCH MEITHRIN TONTEG

Gyda chynnydd yn nifer plant y Cylch Meithrin braf yw croesawu Mrs Larcombe, Cedar Crscent, Tonteg, i gynorthwyo gyda dysgu'r plant bach. Rwy'n siwr y bydd y plant wrth eu bodd yn ei chwmni, ac ar ôl gadael yr Ysgol Feithrin bydd Mrs Larcombe yn edrych ar eu hôl yn ystod yr awr ginio yn Ysgol Gymraeg Gartholwg gan ei bod yn un o fenywod cinio yr ysgol. Pob lwc i chi yn eich swydd newydd, Mrs Larcombe.

ANRHEG NADOLIG

Llongyfarchiadau brwd i'n gohebydd Siân - ac wrth gwrs i'w gŵr Emlyn Penny Jones - ar enedigaeth merch fach, Lisa Angharad, chwaer i Sioned a Carys, ar fore dydd Nadolig. Anrheg Nadolig gwerth chweil Pens!

Digwyddiadur

7 Chwefror - 10.30 a.m. - Tabernacl, Yr Efail Isaf - Y Parch D. Eirian Rees - Oedfa Gymun

14 Chwefror - 10.30 a.m. - Tabernacl, Yr Efail Isaf - Y Parch Huw Ethall, Caerdydd

15-19 Chwefror - Hanner Tymor

21 Chwefror - 10.30 a.m. - Tabernacl, Yr Efail Isaf - Alun Gibbard

22 Chwefror - Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd - Clwb Ifor Bach - Digwyddiadau Niwtrino o'r ffrwydriad Supernova CMM1987A - Dr Tegid Jones

26 Chwefror - 8.00 - Cymdeithas Gymraeg Llantrisant/Merched y Wawr Pentre'r Eglwys - Noson i Ddathlu Gŵyl Ddewi - Neuadd Dowlais - Twmpath Dawns - Cadlan - Bwyd - Tocynnau oddi wrth Meima Morse (202737) neu Sara Davies (0222 890501)

27 Chwefror -10.00 a.m. - Neuadd Gymuned Tonysguboriau - Ffair Sborion Y.G.G. Llantrisant

28 Chwefror - 10.30 a.m. - Tabernacl, Yr Efail Isaf - Astudiaeth ar yr Efengylau dan arweiniad y Parch. D. Eirian Rees

6 Mawrth - 10.30 a.m. - Tabernacl, Yr Efail Isaf - Oedfa Cyflwyno'r Beibl Newydd a Phasiant

12 Mawrth - Ysgol Gyfun Llanhari - Eisteddfod yr Urdd, Cylch Llantrisant

21 Mawrth - Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd - Clwb Ifor Bach - 'Hud a Lledrith Mathemateg' - Dr Gareth Roberts

23 Mawrth - 7.30 - Coleg Crosskeys, Gwent - Eisteddfod Dysgwyr Morgannwg a Gwent

Cyhoeddwyd gan Fwrdd Golygyddol TAFOD ELAI ac argraffwyd gan Three Arch Press, Pontyclun.